# Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

Dr Gwynne Jones
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| **PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU** | **AUDIT AND GOVERNANCE COMMITTEE** |
| **DYDD MAWRTH, 24 GORFFENNAF 2018 am 2:00 y. p.** | **TUESDAY, 24 JULY, 2018 at 2:00 p.m.** |
| **YSTAFELL BWYLLGOR 1, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI** | **COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI** |
| **Swyddog Pwyllgor** — **Ann Holmes 01248 752518** | **Committee Officer** |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**PLAID CYMRU / THE PARTY OF WALES**

John Griffith, Dylan Rees, Alun Roberts, Margaret M. Roberts

**Y GRWP ANNIBYNNOL / THE INDEPENDENT GROUP**

Gwilym O. Jones, Richard Griffiths

**ANNIBYNNWYR MÔN / ANGLESEY INDEPENDENTS**

R. Llewelyn Jones *(Is-Gadeirydd/Vice-Chair),* Peter Rogers *(Cadeirydd/Chair)*

**AELODAU LLEYG / LAY MEMBERS**

Dilwyn Evans, Jonathan Mendoza

# R H A G L E N

1 **<u>DATGANIAD O DDIDDORDEB</u>**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

2 **<u>COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL</u>** (Tudalennau 1 - 16)

Cyflwyno cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a gynhaliwyd ar 27 Mehefin, 2018.

3 **<u>DIWEDDARIAD CYNNYDD ARCHWLIO MEWNOL</u>** (Tudalennau 17 - 28)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

4 **<u>ADOLYGIAD BLYNYDDOL RHEOLI'R TRYSORLYS 2017/18</u>** (Tudalennau 29 - 46)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151.

5 **<u>BLAEN RAGLEN WAITH</u>** (Tudalennau 47 - 52)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

# PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Mehefin, 2018

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Peter Rogers (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd R. Llewelyn Jones (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr John Griffith, G.O. Jones, Dylan Rees, Margaret Roberts.<br><br>Aelodau Lleyg: Dilwyn Evans a Jonathan Mendoza |
| **YN BRESENNOL:** | Prif Weithredwr<br>Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, Gwella Cymunedol a Gwasanaethau)<br>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro (ar gyfer eitem 4)<br>Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg (AS)<br>Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth Gorfforaethol (HP) (ar gyfer eitem 4)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr Richard Griffiths, Alun Roberts, Robin Williams (Aelod Portffolio Cyllid) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Llinos Medi Huws (Arweinydd), y Cynghorydd Carwyn Jones (Aelod Portffolio ar gyfer Prosiectau Mawr a Datblygiad Economaidd) (ar gyfer eitem 6) Rheolwr Gwasanaethau Cyfrifeg (BHO), (ar gyfer eitem 3), Mr Huw Lloyd Jones (Swyddfa Archwilio Cymru), Mr Gwilym Bury (Arweinydd Archwilio Perfformiad - Swyddfa Archwilio Cymru) |

DRAFT

### 1. DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

### 2. COFNODION CYFARFOD 9 CHWEFROR, 2018

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a gynhaliwyd ar y dyddiadau a nodir isod a chadarnhawyd eu bod yn gywir -

- 24 Ebrill, 2018

Yn codi - Gofynnodd y Pwyllgor am ddiweddariad ar y sefyllfa mewn perthynas â'r adolygiad o gylch gorchwyl y Pwyllgor, sef tasg sydd wedi cael ei gohirio dros nifer o gyfarfodydd oherwydd yr oedi gyda chyhoeddi canllawiau newydd CIPFA.

Dywedodd y Pennaeth Archwilio a Risg y bwriadwyd y byddai'r adolygiad yn digwydd yn y cyfarfod o’r Pwyllgor ym mis Gorffennaf; fodd bynnag oherwydd bod y cyfarfodydd o’r Pwyllgor mor agos at ei gilydd ym Mehefin a Gorffennaf, mae'n annhebygol y gellir cwrdd â'r amserlen ar gyfer cyfarfod mis Gorffennaf. Mae’r adolygiad yn awr wedi ei raglennu ar gyfer y cyfarfod o’r Pwyllgor a gynhelir ym mis Medi. Dywedodd y Swyddog fod y ddau Aelod Lleyg ar y Pwyllgor wedi nodi eu bod yn hapus i edrych ar y drafft cyntaf o'r cylch gorchwyl diwygiedig a bwriedir anfon y ddogfennaeth atynt yn yr wythnosau nesaf.

- 15 Mai, 2018 (ethol Cadeirydd / Is-Gadeirydd)

**3. DATGANIAD CYFRIFON 2017/18 A’R DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a’r Swyddog Adran 151 yn cynnwys y drafft o’r Datganiad Cyfrifon cyn ei archwilio ar gyfer blwyddyn ariannol 2017/18 ynghyd â'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft ar gyfer 2017/18 ar gyfer ystyriaeth y Pwyllgor.

Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a’r Swyddog Adran 151 bod gan y Cyngor ddyletswydd statudol i gymeradwyo a chyhoeddi Datganiad Cyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Cyn y gall Archwiliad Allanol ddechrau, mae'n rhaid i'r Swyddog Adran 151 lofnodi’r Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad Cyfrifon cyn y dyddiad cau statudol, sef 30 Mehefin bob blwyddyn. Cwblhawyd y Datganiad Cyfrifon ar gyfer 2017/18 mewn hen ddigon o amser cyn y dyddiad hwn fel paratoad ar gyfer cau’r cyfrifon yn gynharach yn 2018/19 pan fydd raid cwblhau’r cyfrifon drafft erbyn 15 Mehefin, 2019. O 2020/21 ymlaen, bydd y dyddiad cau cyfreithiol ar gyfer cwblhau a llofnodi'r Cyfrifon drafft yn cael ei ddwyn ymlaen eto i 31 Mai. Dywedodd y Swyddog nad yw strwythur a chynnwys y cyfrifon wedi newid yn sylweddol gyda'r adroddiad naratif rhagarweiniol, sy'n rhan allweddol o'r cyfrifon, ac sy’n darparu canllaw i'r materion mwyaf arwyddocaol yr adroddir arnynt yn y cyfrifon mewn ffordd hawdd ei deall ynghyd â gwybodaeth gyd-destunol am Gyngor Sir Ynys Môn. Mae ffurf y Datganiad wedi'i ragnodi gan reoliadau ac arferion cyfrifyddu ac mae'n cynnwys y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Dadansoddiad o Wariant ac Incwm; y Datganiad ar Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian a'r Nodiadau i'r Cyfrifon sy'n ymhelaethu mewn modd esboniadol ar y ffigurau yn y prif gyfrifon. Yn ogystal, ceir y Cyfrif Refeniw Tai a'r nodiadau cysylltiedig a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2017/18.

Dygodd y Swyddog sylw at y canlynol fel y prif bwyntiau y dylid eu hystyried yn y Datganiad Cyfrifon ar gyfer 2017/ 8:

- Er bod y Datganiad o Gyfrifon yn fod i roddi gwybodaeth glir i etholwyr, trethdalwyr lleol, aelodau'r Cyngor, gweithwyr a phartïon eraill sydd â diddordeb yng nghyllid y Cyngor, mae'n ddogfen gymhleth a thechnegol sydd wedi'i gosod allan yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol – mae cydymffurfio â gofynion y Cod wrth baratoi'r cyfrifon yn un o'r ffactorau y mae'r Archwilydd Allanol yn eu hasesu wrth gynnal archwiliad o'r cyfrifon.
- Bod paragraff 3.4 yr adroddiad naratif yn rhoi crynodeb o berfformiad ariannol y Cyngor am y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth, 2018, gan gynnwys ei wariant refeniw a chyfalaf. Yn 2017/18, dywedodd y Cyngor fod gorwariant o £ 1.78m yn erbyn gweithgaredd a gynlluniwyd o £ 126.2m (cyllideb net) a chyflawnodd £ 1.704m o arbedion. Mae'r tabl ym mharagraff 3.4.1 yn adlewyrchu'r gyllideb derfynol ar gyfer 2017/18 a'r gwir incwm a gwariant yn ôl gwasanaeth. Roedd tanwariant ar y Gyllideb Gyfalaf yn ystod y flwyddyn gyda chyfanswm y gwariant yn £ 29.355m yn erbyn Cyllideb Gyfalaf o £ 52.572m. Gwnaed cynnydd cyson gyda’r Rhaglen Gyfalaf yn ystod y flwyddyn a bu modd cyflawni 55.73%

DRAFT

ohoni. Disgwylir y bydd y cynlluniau sy'n weddill yn cael eu cyflwyno dros y blynyddoedd nesaf. Mae'r wybodaeth a gyflwynir yn adran 3.4 yn unol â'r hyn a ddarperir mewn adroddiadau monitro ariannol a gyflwynwyd i Bwyllgor Gwaith y Cyngor ym mis Mai a Mehefin, 2018.

- Bod y Datganiad ar y Cyfrif Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (CIES) yn dangos y gost gyfrifyddol yn ystod y flwyddyn o ddarparu gwasanaethau yn unol ag arferion cyfrifo a dderbynnir yn gyffredinol yn hytrach na'r swm sydd i'w ariannu o'r trethi. Mae'r CIES ar gyfer 2017/18 yn dangos diffyg o £ 143.869m ar weithrediadau parhaus o gymharu â £ 122.889m yn 2016/17, ac roedd y prif amrywiad mewn gwariant net yn yr Adran Dysgu Gydol Oes a oedd £ 18m yn uwch nag yn 2016/17 ond a oedd yn cynnwys eitem gyfalaf nad oedd yn cael effaith ar y modd y caiff y Cyngor ariannu. Roedd y cyfanswm incwm a gwariant cynhwysfawr ar gyfer 2017/18 yn weddill o £ 21.764m o gymharu â diffyg o £ 9.242m yn 2016/17 ac roedd modd priodoli'r incwm ychwanegol i ailbrisio asedau anghyfredol (£43.058m) ac ail-fesur yr atebolrwydd pensiwn net (£ 7.413m). Mae'r rhain yn eitemau sydd wedi'u cynnwys yn y cyfrifon oherwydd gofynion cyfrifyddu ac nid oherwydd eu bod yn eitemau cael eu hariannu o drethi lleol.
- Bod y **Dadansoddiad o Wariant a Chyllido ar** gyfer 2017/18 yn dangos bod Balansau Cronfa'r Cyngor (cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio) a Balans y CRT ar adeg cau'r cyfrifon i lawr £ 27.856m o'r £ 31.345m yn 2016/17.
- Bod y **Datganiad o Symudiad yn y Cronfeydd Wrth Gefn** yn dangos symudiad yn ystod y flwyddyn i ac o'r cronfeydd wrth gefn a ddelir gan y Cyngor gyda'r rheiny wedi'u rhannu'n gronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio (h.y. y rhai sy'n deillio o weithgaredd y Cyngor ac y gellir eu gwario) a chronfeydd wrth gefn eraill nad oes modd eu defnyddio (y rhai sy'n deillio o addasiadau cyfrifyddu ac nad oes modd eu gwario). Mae'r gwarged/(diffyg) ar y llinell darparu gwasanaethau yn adlewyrchu'r gwir gost economaidd o ddarparu gwasanaethau'r Awdurdod a cheir mwy o fanylion amdanynt yn y CIES. Mae'r Datganiad yn dangos bod gostyngiad o £2.003m yng Nghronfa Gyffredinol y Cyngor yn 2017/18, gyda hynny'n arwain at gronfa gyffredinol o £6. 352m a hynny'n bennaf oherwydd y gorwariant o £ 1.7m yn y Gyllideb Refeniw y cyfeiriwyd ato'n gynharach. Mae'r Gronfa Wrth Gefn Glustnodedig hefyd wedi gostwng o £13.357m i £ 11.910m yr un modd â'r Cyfrif Refeniw Tai (HRA) lle cafwyd gostyngiad o £139k sy'n gadael balans o £ 7.405m ar 31 Mawrth, 2018. Mae'r Gronfa Wrth Gefn ar gyfer Derbyniadau Cyfalaf wedi cynhyrchu gwarged o £ 320k tra bod Balansau Ysgolion wedi gostwng o £ 2.089m i £ 1.869m yn bennaf yn y sector cynradd, gyda balansau'r sector uwchradd wedi cynyddu rhyw fymryn. Cyfanswm cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy'r Cyngor ar 31 Mawrth oedd £ 27.856m tra bod cyfanswm y cronfeydd nad oes modd eu defnyddio yn £ 158.727m.
- Bod y **Fantolen** yn dangos gwerth yr asedau a'r rhwymedigaethau a gydnabyddwyd gan yr Awdurdod fel yr oeddynt ar ddyddiad y Fantolen, sef 31 Mawrth, 2018. Mae'r asedau net yn cyfateb â chronfeydd wrth gefn yr Awdurdod. Dengys y Fantolen bod gwerth asedau'r Cyngor wedi codi o £ 164.819m ar 31 Mawrth, 2017 i £ 186.583m ar 31 Mawrth, 2018 yn bennaf oherwydd cynnydd yng ngwerth eiddo, offer a chyfarpar y Cyngor (llinell 1 y Fantolen). Mae balansau arian parod a chyfwerth ag arian parod y Cyngor wedi gostwng o £ 14.949m ar 31 Mawrth, 2017 i £ 7.789m ar 31 Mawrth, 2018. Fodd bynnag, ciplun yn unig a rydd y Fantolen o sefyllfa ariannol y Cyngor ar bwynt penodol mewn amser sy'n dangos gwerth ei asedau a'i rwymedigaethau ar 31 Mawrth, 2018. Nid yw'n rhoi adlewyrchiad cywir o sefyllfa ariannol y Cyngor.
- Bod y **Datganiad Llif Arian** yn dangos y newidiadau mewn arian parod a chyfwerth ag arian parod y Cyngor yn ystod y cyfnod y mae wnelo'r adroddiad ag ef. Mae'r gostyngiad ym malansau arian parod y Cyngor yn gyson â'r Strategaeth Rheoli Trysorlys fel y'i

DRAFT

cymeradwywyd gan y Cyngor, sef defnyddio’r balansau arian parod sydd ar gael i leihau'r gofynion benthyca gan fod cost benthyca yn uwch na'r enillion ar fuddsoddiadau.

- Bod y **Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol craidd** yn rhoi mwy o fanylion am bolisïau cyfrifo'r Cyngor, eitemau a'r ffigyrau a gynhwysir yn y prif ddatganiadau ariannol y cyfeirir atynt uchod. Maent yn egluro eitemau sydd wedi'u cynnwys yn y cyfrifon oherwydd rheolau cyfrifyddu yn ogystal â darparu gwybodaeth ychwanegol am eitemau megis incwm grant, cydnabyddiaeth ariannol i swyddogion, cynllun pensiwn llywodraeth leol ac asedau a rhwymedigaethau wrth gefn (incwm posibl y gall y Cyngor ei dderbyn a / neu gostau posibl a all ddod i’w ran). Dygodd y Swyddog sylw at y nodiadau sy'n debygol y mae rhanddeiliaid y Cyngor yn debygol o fod â’r diddordeb mwyaf ynddynt wrth ddarllen y datganiadau.
- Y **Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2017/18** – ynddo, nodir y prosesau, y systemau, yr egwyddorion a'r gwerthoedd sy’n rhoi cyfeiriad i’r Awdurdod ac yn ei reoli. Mae'r Datganiad yn fodd i’r Awdurdod fonitro cyflawniad ei amcanion strategol ac i ystyried a yw'r amcanion hynny wedi arwain at ddarparu gwasanaethau priodol a chost-effeithiol.Mae hefyd yn nodi'r trefniadau a roddwyd ar waith i reoli a lliniaru'r risgiau y mae'n eu hwynebu wrth ymgymryd â'i weithgareddau a'i gyfrifoldebau.

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r wybodaeth a gyflwynwyd yn y cyfrifon a chododd y pwyntiau canlynol -

- Nododd y Pwyllgor fod y Cyfrifon drafft ar gyfer 2017/18 wedi cael eu paratoi mewn modd amserol ac ymhell o flaen y dyddiad cau statudol presennol sef 30 Mehefin.
- Nododd y Pwyllgor fod y naratif rhagarweiniol yn rhoi crynodeb teg a dealladwy o berfformiad ariannol y Cyngor a'r sefyllfa ariannol ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth, 2018 a'i fod yn nodi'r digwyddiadau allweddol a'u heffaith ar y datganiadau ariannol.
- Nododd y Pwyllgor fod y Tabl yn 3.4.1 o'r adroddiad naratif yn dangos alldro terfynol y gyllideb ar gyfer pob gwasanaeth ar gyfer 2017/18. Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad a yw'n bosibl olrhain y ffigurau yn Nhabl 3.4.1 i'r datganiadau ariannol.

Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 bod modd olrhain y ffigyrau trwy'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (CIES) yn ogystal â Nodyn esboniadol 1 (a) a Nodyn 11. Mae'r CIES yn ymgorffori eitemau sy'n cael eu cynnwys oherwydd gofynion cyfrifyddu e.e. atebolrwydd pensiwn a dibrisiant sydd wedyn yn cael eu tynnu allan ar gyfer y broses o osod y Dreth Gyngor oherwydd fel eitemau cyfrifyddu, nid ydynt yn effeithio ar y modd y caiff gwasanaethau'r Cyngor eu hariannu ac felly nid ydynt yn gostau gwirioneddol sy'n effeithio ar Gronfa Gyffredinol y Cyngor. Mae'r nodiadau esboniadol yn cyflawni’r dasg o gael gwared â'r addasiadau cyfrifo hyn ac yna ail-gynnwys yr eitemau sy'n cael eu hariannu drwy’r trethi, gyda hynny’n rhoi syniad cliriach o sefyllfa ariannol y Cyngor. Yr adroddiad naratif yw'r Cyfrifon Rheoli, h.y. ffigurau sy'n seiliedig ar weithgareddau'r Cyngor a chost gwasanaethau tra bod y datganiadau ariannol yn gyfrifon statudol sy'n cael eu paratoi ar ddiwyg penodol yn unol â rheoliadau ac sy'n cynnwys eitemau nad ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig â’r modd y mae'r Cyngor yn cael ei ariannu.

Gofynnodd y Pwyllgor am wybodaeth sy'n dangos sut mae'r ffigurau yn nhabl 3.4.1 yn cael eu cysoni â'r datganiadau ariannol.

- Nododd y Pwyllgor fod y Cyngor yn agosáu at isafswm y trothwy o ran arian wrth gefn a bod £ 1.78m wedi cael ei gymryd o'r Cronfeydd Wrth Gefn Cyffredinol yn 2017/18 i ariannu'r gorwariant ar y Gyllideb Refeniw yn bennaf oherwydd gorwariant gan y Gwasanaethau

Plant a Theuluoedd ar leoliadau all-sirol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Nododd y Pwyllgor ymhellach fod yr adroddiad naratif yn cydnabod bod nifer gynyddol o blant yn derbyn gofal a bod pwysau eraill o ran gofal cymdeithasol yn risg sylweddol i falansau'r Cyngor oherwydd cost uchel lleoliadau (cymaint â £ 250k y flwyddyn fesul plentyn sy'n derbyn gofal) ar gyfer unigolion ag anghenion cymhleth. O ystyried y cyd-destun hwn felly a'r risg gydnabyddedig, gofynnodd y Pwyllgor am eglurad ynghylch a ddylai'r Cyngor wneud darpariaeth wrth gefn ar wahân at gyfer y tebygrwydd gwirioneddol iawn y bydd y pwysau hyn yn parhau a goblygiadau hynny i sefyllfa ariannol y Cyngor.

Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 fod y Cyngor yn y sefyllfa ffodus o fod â £ 8.3m yn ei gronfeydd wrth gefn cyffredinol ar ddechrau blwyddyn ariannol 2017/18. Mae'n rhaid i'r Swyddog Adran 151 lunio asesiad ynghylch y lefel ddarbodus o gronfeydd wrth gefn y dylai'r Cyngor ddal gafael arnynt ac mae'r asesiad hwnnw'n seiliedig ar nifer o ffactorau gan gynnwys sefyllfa a rheolaeth ariannol y Cyngor a'r risgiau y mae'n eu hwynebu. Ar gyfer 2017/18 daeth y Swyddog Adran 151 i'r canlyniad yn ei asesiad fod oddeutu £ 6m i £ 6.5m yn leiafswm digonol ar gyfer y cronfeydd wrth gefn. Er bod y gorwariant ar y Gronfa Refeniw wedi gostwng, roedd lefel y cronfeydd wrth gefn wedi gostwng ac erbyn hyn mae'n agosáu at y lleiafswm, ond nid yw hyn o reidrwydd yn golygu na fydd y Swyddog Adran 151 yn ystyried unrhyw ostyngiad pellach a gallai ganiatáu i'r cronfeydd wrth gefn fynd islaw'r trothwy ar yr amod ei fod yn fodlon bod cynllun yn ei le i adfer y balansau i'r lefel a ddeisyfir trwy wneud darpariaeth yn y gyllideb. Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) fod y swm o £ 1.3m wedi'i gynnwys yng Nghynllun Ariannol Tymor Canol y Cyngor (MTFP) i dalu am gost ychwanegol y lleoliadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ynghyd â chost y ddarpariaeth addysg a ddaw yn sgil lleoliadau all-sirol. Mae'r Gwasanaethau Plant a'r Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes yn gweithio ar wahanol brosiectau mewn ymdrech i leihau'r costau. Mae diffyg darpariaeth yn lleol wrth wraidd y mater hwn, boed hynny oherwydd prinder gofalwyr maeth neu leoliadau preswyl arbenigol. Mae'r Gwasanaeth yn ceisio cynyddu nifer y gofalwyr maeth ar Ynys Môn a byddai hynny wedyn yn caniatáu i fwy o blant yr Awdurdod sy'n derbyn gofal aros mewn addysg prif lif ar yr Ynys gan leihau'r angen ac, yn sgil hynny, cost y ddarpariaeth all-sirol. Fodd bynnag, cydnabyddir na fyddai'r strategaeth o leihau cost gyfartalog y lleoliadau trwy gynyddu'r ddarpariaeth yn lleol yn ddigon i bontio'r cyfan o'r bwlch cyllidebol o £ 1.7m, felly mae'r MTFP yn caniatáu ar gyfer cynnydd yn y gyllideb hefyd. Mae gwerth y setliad i lywodraeth leol a blaenoriaethau gwariant Llywodraeth Cymru pan ddaw i ddyrannu cyllid hefyd yn ffactorau perthnasol. Mae'r Cyngor yn cynllunio ar sail y senario achos gwaethaf h.y. diffyg cyllidebol o £ 10m dros y 3 blynedd nesaf ond sy'n caniatáu cyllid ychwanegol ar gyfer y Gwasanaethau Plant.

Rhoddodd yr Arweinydd a'r Aelod Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol esiampl o'r math o therapi arbenigol a'r ddarpariaeth y gall plentyn sy'n derbyn gofal ac sydd â chefndir helbulus fod ei angen ac y gall costau'r ddarpariaeth honno gynyddu'n gyflym. Fel gwasanaeth sy'n cael ei arwain gan y galw, dywedodd ei bod yn anodd ceisio rhagamcan y costau ar gyfer y gyllideb Plant sy'n Derbyn Gofal ac er bod yr Awdurdod yn ceisio datblygu atebion lleol i'r graddau y mae hynny'n bosibl, mae'r cynnydd cyson yn nifer y plant sy'n derbyn gofal yn ffenomen genedlaethol ac mae angen mynd i'r afael â hyn ar lefel genedlaethol.

- Nododd y Pwyllgor bod yr atebolrwydd net ar y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn £104.633m. Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ynghylch a yw hwn yn fater y dylai'r Cyngor fod yn pryderu amdano o ran gallu cyflawni ei rwymedigaethau a hefyd o ran yr effaith bosibl

DRAFT

ar sefyllfa ariannol y Cyngor. Ceisiodd y Pwyllgor sicrwydd fod hon yn risg y gall y Cyngor ei rheoli.

Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 fod y diffyg ar y Cynllun Pensiwn yn hanesyddol gydag ad-drefnu llywodraeth leol ym 1996 yn ffactor a gyfrannodd ato. Ar y pryd, caniatawyd i nifer fawr o weithwyr y cyngor ymddeol yn gynnar o ganlyniad i'r ailstrwythuro a chafodd rhai ohonynt eu diswyddo a bu i rai ohonynt yn ymddeol yn gynnar. Mae hyn yn rhoi straen ar gostau pensiwn, yr un modd â hirhoedledd wrth i unigolion fyw'n hirach wedi iddynt ymddeol, gan olygu eu bod yn cael budd-dal pensiwn am gyfnod hwy. Fodd bynnag, oherwydd y byddai eu cyfraniad pensiwn wedi bod yn is yn nyddiau cynnar eu cyflogaeth, mae'r diffyg yn y Gronfa yn adeiladu dros amser. Dros y 10 mlynedd diwethaf, mae'r Cynllun Pensiwn wedi'i ailfodelu ac fe'i diwygiwyd yn 2008 ac eto yn 2014 pan ddaeth y cynllun yn gynllun Cyfartaledd Gyrfa yn hytrach na'n Gynllun Cyflog Terfynol. Dylai'r diwygiadau olygu nad yw'r diffyg yn tyfu. Hefyd, yn seiliedig ar y gwerthusiad a wnaed gan Actiwari'r Gronfa Bensiwn, mae'r Cyngor fel cyflogwr wedi bod yn gwneud cyfraniadau uwch i'r Gronfa, ac mae'n talu lwmp swm blynyddol fel cyfraniad at y diffyg. Cadarnhaodd y Swyddog nad oedd yn ystyried bod y diffyg yn y Gronfa Bensiwn yn rhywbeth i bryderu yn ei gylch oherwydd bod y Cyngor yn gwneud cyfraniadau uwch i'r Gronfa i ostwng y diffyg, oherwydd bod y Gronfa Bensiwn wedi'i diwygio ac oherwydd bod y Cynllun yn un parhaus sy'n golygu na fydd ei rwymedigaethau yn digwydd i gyd ar yr un pryd.

- Nododd y Pwyllgor fod gan y Cyngor falans o £ 24.594m ar gyfer dyledwyr tymor byr ar 31 Mawrth 2018 a bod adolygiad o falans yr ôl-ddyledion yn awgrymu bod amhariad £ 5.377m yn briodol ar gyfer dyledion amheus sy'n gadael y Cyngor felly gyda balans dyledion tymor byr o tua £ 19m. Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ynghylch a yw'r dull hwn yn golygu bod y Cyngor yn hyderus y gall adennill yr arian sy'n ddyledus a hefyd a yw'r dull hwn yn briodol o ystyried bod y cyfrifon hefyd yn datgan y bydd unrhyw wahaniaethau rhwng y lefel amhariad a ddefnyddwyd a'r sefyllfa wirioneddol o ran ôl-ddyledion yn adlewyrchu patrymau gwario yn y dyfodol.

  Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 fod ymagwedd y Cyngor yn cydymffurfio â'r Cod. Wrth ystyried dyledion, mae'r Cyngor yn rhoi sylw i'r mathau o ddyledion, eu gwerth, eu hoed ac, yn dilyn hynny, mae'n asesu faint o ddyled y mae'n debygol o allu ei adennill. Er bod y Cyngor yn effeithlon iawn yn y modd y mae'n casglu'r Dreth Gyngor a Threthi Annomestig gyda'r gyfradd gasglu tua 98% y flwyddyn ac oddeutu 99% dros gyfnod o 3 blynedd – ac yn dileu llai na 1% o'r ddyled ar y dreth gyngor bob blwyddyn - mae'n llai effeithlon wrth gasglu dyledion eraill. Gellir priodoli hyn i'r ffaith fod casglu'r Dreth Gyngor yn haws oherwydd y gweithdrefnau sydd ar gael gan gynnwys gweithdrefnau cyfreithiol, sy'n sail i'r broses o adennill dyledion. Mae'r ddarpariaeth amhariad yn cynrychioli'r senario waethaf ac mae'n bosibl iawn y bydd y Cyngor yn casglu mwy na'r swm a ddangosir fel amhariad.

- Nododd y Pwyllgor fod y ffi Archwilio Allanol ar gyfer 2016/17 yn £ 88k a'i fod yn £ 182k ar gyfer 2017/18 £ 182k; gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad o'r cynnydd hwn sy'n uwch na'r disgwyl.

  Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 fod y cynnydd yn y ffi archwilio i'w briodoli i'r gwaith a wnaed gan yr Archwilwyr Allanol ar hawliad y Grant Cymhorthdal Budd-dal Tai a'i fod yn amodol ar nifer y gwallau a ganfuwyd. Codwyd gormod

DRAFT

ar yr  Awdurdod hefyd yn ystod y broses o newid archwilwyr allanol a throsglwyddo o PwC i Delloite. Bydd ad-daliad yn ymddangos yng nghyfrifon y flwyddyn nesaf.

Cadarnhaodd Mr Gwilym Bury, Swyddfa Archwilio Cymru mai'r unig amrywiad yn y ffi Archwilio Allanol yw'r gwaith sy'n gysylltiedig â grantiau ac, yn benodol, y cais am Grant Cymhorthdal Budd-dal Tai sy'n eitem gymhleth a all olygu gwaith ychwanegol gyda hynny'n arwain at gostau ychwanegol.

**Penderfynwyd bod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu -**

- **Yn derbyn ac yn nodi'r Datganiad Cyfrifon drafft ar gyfer 2017/18 cyn iddo gael ei adolygu gan yr Archwilwyr Allanol.**
- **Yn derbyn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2017/18 fel adlewyrchiad teg o weithrediadau'r Cyngor dros y flwyddyn.**

**CAM GWEITHREDU YCHWANEGOL: Y Pwyllgor i gael gwybodaeth am y modd y caiff ffigurau alldro'r Gyllideb ym mharagraff 3.4.1 yr adroddiad naratif eu cysoni â'r datganiadau ariannol.**

## 4. DIWEDDARIAD AR GYNNYDD ARCHWILIO MEWNOL

Cyflwynwyd er sylw'r Pwyllgor - adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg yn nodi'r cynnydd a wnaed (fel ar 8 Mehefin, 2018) mewn perthynas â'r adroddiadau Archwilio Mewnol (AM) a gyhoeddwyd ers cyfarfod blaenorol y Pwyllgor ym mis Ebrill, 2018. Roedd yr adroddiad yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am yr adroddiadau AM a gyhoeddwyd ers 26 Ebrill, 2018; canlyniad adroddiadau dilyn-i-fyny AM blaenorol; gweithredu camau Rheoli; cynnydd o ran cyflawni Cynlluniau Blynyddol AM ar gyfer 2017/18 a 2018/19 yn ogystal â'r llinell amser ar gyfer adolygu cylch gorchwyl y Pwyllgor.

Adroddodd y Pennaeth Archwilio a Risg ar y prif faterion fel a ganlyn -

- Bod y Gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi cwblhau tri adroddiad yn ystod y cyfnod y cyfeiriwyd ato; roedd y rhain mewn perthynas â Recriwtio a Chadw Gofalwyr Maeth a arweiniodd at farn Sicrwydd Rhesymol, yr un modd â'r adroddiad adolygu ar Iechyd a Diogelwch Corfforaethol. Arweiniodd y trydydd adroddiad a oedd yn ymwneud â Pharatoadau'r Cyngor ar gyfer y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data at farn Sicrwydd Cyfyngedig a chodwyd 6 o risgiau / materion mawr, 1 risg gymedrol ac 1 risg fechan.
- Ni chynhaliwyd unrhyw adolygiadau dilyn-i-fyny yn ystod y cyfnod adrodd, er bod chwech wedi'u trefnu dros y chwe mis nesaf.
- Bod y Cyngor, dros y 17 mis diwethaf, wedi gwella ei berfformiad yn gyson wrth weithredu argymhellion AM a / neu fynd i'r afael â risgiau a godwyd gan AM fel y dangosir yn y tabl ym mharagraff 22 yr adroddiad. Ar 8 Mehefin, 2018, roedd 90% o faterion Uchel / Coch / Ambr wedi cael sylw, 92% o faterion Canolig / Melyn a 91% o faterion Isel / Gwyrdd.
- Oherwydd y llithriad sylweddol o waith o 2016/17 a cholli staff oherwydd ymddeoliad, absenoldeb  salwch ac ymddiswyddiad, roedd yr adnoddau a oedd ar gael i gwblhau'r Cynllun Gweithredol ar gyfer 2017/18 wedi lleihau'n sylweddol a diwygiwyd y Cynllun yn unol â hynny. Cyflawnwyd y Cynllun diwygiedig a rhoddwyd rhai archwiliadau ymlaen gan ddibynnu ar eu blaenoriaeth. Er bod cynnydd o ran darparu'r Cynllun Gweithredu ar gyfer 2018/19 (ynghlwm yn Atodiad A yr adroddiad) wedi bod yn araf o ganlyniad i ddwy swydd wag ac absenoldeb salwch hirdymor, mae'r Gwasanaeth wedi cwblhau un Gwiriad Cyfrif

DRAFT

Terfynol ac wedi cychwyn gwaith mewn pedwar maes arall yn ogystal â bod yn rhan o dri ymchwiliad sy'n mynd rhagddynt. Mae'r Cynllun Gweithredu wedi cael ei ddiwygio yn unol â'r adolygiad o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol a gymeradwywyd gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth ar 12 Chwefror, 2018.

- Bod yr adnoddau sydd ar gael i gyflawni'r cynllun presennol wedi lleihau'n sylweddol oherwydd y swyddi gwag a'r absenoldeb. Mae hyn wedi'i reoli trwy leihau'r ddarpariaeth lle bo modd a thrwy ddefnyddio arian wrth gefn. Fodd bynnag, mae diffyg o 50 diwrnod o hyd ac mae'n annhebygol y bydd y Gwasanaeth yn cyflawni darpariaeth 100% mewn perthynas â'r Risgiau Coch ac Ambr Gweddilliol yn y Gofrestr Risg Gorfforaethol. Felly, bydd y Cynllun yn cael ei flaenoriaethu ymhellach i sicrhau bod y meysydd sy'n peri'r risgiau mwyaf i'r sefydliad yn cael sylw gyntaf.
- Yn wreiddiol, roedd cylch gorchwyl y Pwyllgor i fod i gael ei adolygu yn ei gyfarfod ym mis Medi, 2017. Fodd bynnag, yn y cyfarfod hwnnw a chyfarfodydd dilynol, cytunodd y Pwyllgor y dylid gohirio'r adolygiad hyd oni fydd CIPFA wedi cyhoeddi ei ganllawiau newydd. Cyhoeddwyd y canllawiau ym mis Mai 2018 ac fe'u cylchredwyd i aelodau'r Pwyllgor ar 25 Mai. Cynhaliwyd gweithdy gydag aelodau'r Pwyllgor ar y canllawiau newydd ym mis Mehefin; mae dau aelod Lleyg y Pwyllgor wedi cytuno i edrych ar ddrafft o'r cylch gorchwyl newydd. Bydd y rhain yn awr yn cael eu hadolygu'n ffurfiol gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod ym mis Medi, 2018.

Ymhelaethodd y Swyddog ar adroddiad adolygiad AM ar **Baratoadau'r Cyngor ar gyfer GDPR** a gafodd, fel Adroddiad Sicrwydd Cyfyngedig, ei anfon at aelodau'r Pwyllgor yn llawn fel adroddiad ar wahân. Dywedodd y cynhaliwyd yr archwiliad yn dilyn archwiliad interim o'r paratoadau ar gyfer GDPR a gynhaliwyd yn gynharach yn y flwyddyn. Roedd yr adroddiad archwilio a gyflwynwyd yn ôl ym mis Tachwedd, 2017 yn darparu Sicrwydd rhesymol bod y Cyngor ar y trywydd iawn i gydymffurfio â GDPR erbyn Mai, 2018. Pwrpas yr adolygiad archwilio diweddaraf oedd rhoi sicrwydd ynghylch a oedd y Cyngor wedi parhau i weithredu ei gynlluniau ac wedi gwneud digon o waith i fod mewn sefyllfa o gydymffurfio â GDPR erbyn 25 Mai, 2018. Ar ddechrau mis Mai, cadarnhaodd adolygiad AM 2018 o'r Cynllun Gweithredu Corfforaethol a gweithrediad y Cynllun Gweithredu pum cam a ddosbarthwyd i Benaethiaid Gwasanaeth nad oedd y gwasanaethau wedi dangos digon o gynnydd o ran cwblhau'r holl gamau gweithredu ac y byddai'r Cyngor yn annhebygol o fedru adrodd ei fod yn cydymffurfio'n llawn erbyn 25 Mai, 2018. Canfuwyd nad oedd gan wasanaethau dystiolaeth eu bod wedi gweithredu'r camau angenrheidiol yn y Cynllun Gweithredu yn unol â'r dyddiadau targed; dylai'r Cyngor fod wedi mapio ei ddata ac adolygu ei hysbysiadau a pholisïau preifatrwydd erbyn Ebrill, 2018. Yn ogystal, dylai'r Cyngor fod wedi darparu hyfforddiant ar gyfer ei wasanaethau risg uchel. O'r wybodaeth a ddarparwyd gan y Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth Corfforaethol, mae'n debyg mai ychydig o sefydliadau sector cyhoeddus fydd yn cydymffurfio 100% erbyn 25 Mai, 2018. Fodd bynnag, mae'n hanfodol bod y Cyngor yn gallu dangos i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth bod camau rhesymol wedi'u cymryd tuag at sicrhau cydymffurfiaeth â GDPR, a fydd yn cael ei ystyried fel rhywbeth cadarnhaol ac yn llai tebygol o arwain at ddirwy. Cynhelir adolygiad dilyn-i-fyny o'r maes hwn ym mis Awst, 2018.

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r wybodaeth a gyflwynwyd ac fe wnaeth y pwyntiau canlynol -

- Nododd y Pwyllgor fod yr adolygiad Archwilio Mewnol ar Baratoadau'r Cyngor ar gyfer GDPR wedi darparu Sicrwydd Cyfyngedig yn unig; a hynny er gwaethaf y ffaith fod adolygiad interim blaenorol wedi darparu Sicrwydd Rhesymol ynghylch cydymffurfiad tebygol y Cyngor erbyn 25 Mai, 2108. Nododd y Pwyllgor y bydd y Cyngor wedi bod yn

DRAFT

ymwybodol o'r Rheoliad sydd ar ddod ers cryn dipyn o amser ac eto o'r adroddiad archwilio, ymddengys ei fod gryn o bellter o gydymffurfio'n llawn. Yn wyneb y cosbau am beidio â chydymffurfio a all fod yn ddifrifol o safbwynt ariannol ac enw da a'r risg uchel y mae GDPR yn ei gynrychioli, gofynnodd y Pwyllgor am sicrwydd bod mynd i'r afael â'r mater hwn yn cael ei gyflymu ar lefel gorfforaethol a bod yna gynllun ac amserlen ar gyfer sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio'n llawn.

Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro a'r Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth (SIRO) *(yr oedd ei adroddiad ar weithredu GDPR a Deddf Diogelu Data 2018 (DPA 2018) ar draws yr holl wasanaethau yn y Cyngor ar 25 Mai, 2018 wedi ei atodi i'r Adroddiad Diweddariad AM)*, er bod y Cyngor ynghyd â sefydliadau eraill yn gwybod bod GDPR yn dod i rym ym mis Mai 2018, ni chafodd ei gyhoeddi tan 14 Medi, 2017 gan olygu nad oedd y cynnwys yn hysbys tan y dyddiad hwnnw. Crëwyd Cynllun Corfforaethol wedyn i weithredu GDPR o fewn yr adnoddau sydd ar gael. Crynhowyd y Cynllun yn bum cam mewn ymgais i gynorthwyo gwasanaethau'r Cyngor i weithio tuag at gydymffurfiaeth â'r ddeddfwriaeth newydd ac i wneud hynny yn raddol er mwyn rheoli'r broses yn well. Cyflwynwyd cam cyntaf y Cynllun ym mis Tachwedd 2017. Mae'r matrics yn Nhabl 1 o adroddiad y SIRO yn crynhoi'r sefyllfa ar 25 Mai, 2018 mewn perthynas â'r cynllun fesul gwasanaeth. Roedd yr holl wasanaethau a farciwyd yn Wyrdd ac Ambr ar y rhestr wedi cydymffurfio â thri cham y prosiect cyn y dyddiad cau (h.y. gweithio ar hysbysiadau prosesu teg, amserlenni mapio a chadw data) gyda hynny'n rhoi i'r ganolfan gorfforaethol y cyfle i ymgymryd ag a asesiad sicrwydd ansawdd o'r gwaith a wnaed. Mae'r tri gwasanaeth sy'n ymddangos yn Ambr (Adnoddau, Datblygu Economaidd a Thrawsnewid) yn debygol o aros yn Ambr oherwydd natur a graddfa'r data sensitif y maent yn ei gadw. O ran y pedwar gwasanaeth a oedd yn ymddangos yn Goch, roedd y Gwasanaeth Addysg wedi cydymffurfio o fewn y dyddiad cau ond gwnaed hynny funud olaf ar y diwrnod gan olygu nad oedd asesiad sicrwydd ansawdd o'r gwaith i wirio ei fod yn bodloni disgwyliadau SCG yn bosibl. Roedd y Gwasanaethau Cymdeithasol (yn cynnwys y Gwasanaethau Oedolion a Gwasanaethau Plant) yn ymgymryd â gwaith i sicrhau eu bod yn cydymffurfio trwy ddefnyddio swyddog pwrpasol mewn ymgynghoriad â'r Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth Corfforaethol; fodd bynnag, oherwydd absenoldeb salwch y Swyddog o fewn y gwasanaeth, nid oedd y Gwasanaethau Cymdeithasol yn gallu cydymffurfio erbyn y dyddiad cau. Ers 25 Mai, mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cwblhau'r Hysbysiadau Prosesu Teg – fe aseswyd eu hansawdd a chafwyd cadarnhad eu bod yn bodloni'r safonau. Maent hefyd wedi cwblhau'r ymarfer mapio data a'r amserlenni cadw ond ni wyddys eto a ydynt yn cwrdd â'r safonau corfforaethol sy'n golygu bod gwaith pellach i'w wneud yn y meysydd hyn. Mae'r Gwasanaeth Tai mewn sefyllfa debyg o beidio â chyflawni erbyn y dyddiad cau ond wedi cwblhau'r tri cham sydd bellach yn destun asesiad sicrwydd ansawdd. O ran y gwasanaethau sy'n ymddangos yn Goch, mae'r holl ddeunydd ar gael ond mae angen ei asesu'n gorfforaethol i gadarnhau ei fod yn bodloni'r gofynion.

- Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad o'r cynnydd o ran mynd i'r afael â'r risgiau penodol a godwyd gan yr Archwilwyriad Mewnol a oedd, fe ystyriwyd, yn fwy na dim ond rhestr wirio i'w thicio. Nododd y Pwyllgor ymhellach, mai'r disgwyliad ar ôl 25 Mai, oedd y byddai GDPR yn cael ei weithredu fel rhan o weithrediadau'r Cyngor o ddydd i ddydd gan olygu bod yn rhaid iddo fod yn rhan o fywyd bob dydd ei weithwyr; gofynnodd am sicrwydd felly bod y Cyngor yn hyderus ei fod ar y ffordd i sicrhau bod GDPR yn rhan o'i fusnes arferol a bod Rheolwyr yn deall yr hyn sydd ei angen ohonynt.

DRAFT

Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro a SIRO fod y ffordd y cynlluniwyd y cynllun corfforaethol i ymateb i GDPR yn cynnwys pum cam ac y bydd cwblhau'r camau hynny'n sicrhau cydymffurfiaeth.Y tri cham cyntaf yr adroddir arnynt uchod yw'r rhai y mae'r gwasanaethau eu hunain yn gyfrifol amdanynt. Mae'r pedwerydd cam yn ymwneud â'r polisïau a'r prosesau y mae angen eu datblygu er mwyn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth - mae rhestr o'r rhai a ddatblygwyd hyd yma wedi'u cynnwys yn yr adroddiad; mae'r pumed cam yn ymwneud â hyfforddiant. Mae'r deunydd hyfforddi ar GDPR ar gael ar Lwyfan E-Ddysgu'r Cyngor a bydd yn cau ar 30 Mehefin ac ar ôl hynny, bydd yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r grŵp Penaethiaid Gwasanaeth (Y Penaethiaid) yn cael eu diweddaru ar lefel cydymffurfiaeth â'r rhaglen hyfforddi. Y nod yw sicrhau cydymffurfiaeth lawn â GDPR erbyn diwedd mis Awst erbyn pryd y bydd camau un i bedwar wedi eu cwblhau. Bydd graddfa'r gydymffurfiaeth â hyfforddiant (Cam 5) yn hysbys yn fuan, ac efallai y bydd angen targedu rhywfaint o hyfforddiant ychwanegol ar wasanaethau risg uchel. Sicrheir cydymffurfiaeth lawn pan fydd y pum cam wedi cael eu cwblhau ac mae'r rhan fwyaf o'r gwaith bellach wedi'i wneud.

Dywedodd y Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth Gorfforaethol fod GDPR yn ddeddfwriaeth gymhleth iawn yr ychwanegwyd ati ddau ddiwrnod cyn 25 Mai pan gyhoeddodd Llywodraeth San Steffan ei fersiwn derfynol o'i Fesur Diogelu Data sy'n gweithredu Deddf Diogelu Data 2018. Felly, yn ogystal â gweithio ar y pum cam tuag at gydymffurfiaeth â GDPR, bu'n rhaid i'r Awdurdod ymateb ar fyr rybudd i ofynion y Ddeddf Diogelu Data. Sicrhaodd y Swyddog y Pwyllgor fod y Cyngor yn byw o fewn amgylchedd GDPR a Deddf Diogelu Data 2018 ac mae'n cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth i'r graddau bod y Cyngor yn ymateb i unrhyw unigolyn sy'n ceisio arfer ei hawliau statudol. Pwysleisiodd y Swyddog ei bod yn bwysig deall nad yw cydymffurfiaeth yn ymwneud â tharo dyddiad targed ac yna anghofio am y peth - gallai hynny ynddo'i hun greu risg oherwydd ein bod yn mynd yn hunanfodlon; mae cydymffurfiaeth yn rhywbeth parhaus ac mae'r risg yn un o beidio â sylweddoli y bydd sefydliad yn cael ei farnu yn ôl yr achos diwethaf o dorri rheolau data. O ran dealltwriaeth Rheolwyr o'r pwnc, roedd yn ddigonol i reolwyr gwasanaeth ddeall yr hyn oedd ei angen ohonynt dan dri cham cyntaf y Cynllun heb orfod deall y manylion deddfwriaethol. Mae'r Cyngor yn sylweddoli ei fod bellach yn gweithio mewn amgylchedd newydd ac yn defnyddio'r cyfle i gwrdd â Phenaethiaid Gwasanaeth i wirio cynnydd parhaus a nodi unrhyw fylchau a / neu risgiau, i sicrhau bod y tri cham cyntaf yn ategu ei gilydd a bod y polisïau a'r weithdrefn o dan y pedwerydd cam yn cael eu gweithredu a'u defnyddio'n briodol.

Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro a SIRO mai Penaethiaid Gwasanaeth hefyd yw'r Perchenogion Asedau Gwybodaeth ar gyfer y wybodaeth a gedwir gan eu gwasanaeth. Gan fod y rhan fwyaf o'r gwaith o dan y tri cham cyntaf yn weinyddol ei natur yn bennaf, mae'n bosib nad oedd rhaid gwasanaeth wedi dyrannu adnoddau yn ddigon buan i gyflawni'r amcanion gofynnol. Mae'r adroddiad wedi bod yn ddefnyddiol i ganolbwyntio meddyliau ac i greu ymdeimlad o frys yn y cyfnod yn arwain at 25 Mai; pan oedd gwasanaethau'n canolbwyntio ar y gwaith yr oedd angen ei wneud, cyflawnwyd yr amcanion gyda'r rhan fwyaf ohonynt yn gwneud hynny ar lefel uchel a medurs.

- Nododd y Pwyllgor fod adroddiad adolygu archwiliad AM ar GDPR yn adroddiad traws-wasanaeth a oedd yn ymwneud â sawl aelod o staff. Nododd y Pwyllgor hefyd nad oedd y llinellau atebolrwydd yn eglur iddo o ran pwy a oedd yn gyfrifol am weithredu'r Cyllunllun gweithredu. Mewn perthynas ag adroddiad o'r math hwn sy'n effeithio ar wasanaethau ar draws y Cyngor, nododd y Pwyllgor fod angen mecanwaith i gydlynu'r

DRAFT

broses o gynllunio camau gweithredu, neu fel arall mae perygl y bydd pethau'n llithro a chamau ddim yn cael eu gweithredu.

Dywedodd y Pennaeth Archwilio a Risg fod y Cynllun Gweithredu yn nodi'r swyddog cyfrifol ar gyfer pob mater a godwyd a bod disgwyl iddynt adrodd yn ôl i Archwilio Mewnol ar y camau a gymerwyd drwy'r feddalwedd ar gyfer tracio argymhellion. Cyfrifoldeb y rheolwyr yw sicrhau bod y cynllun gweithredu'n cael ei roi ar waith; bydd yr Uned Archwilio Mewnol yn mynd ar ôl Rheolwyr am ddiweddariadau ac i sicrhau bod yr argymhellion yn cael eu gweithredu a bod digon o dystiolaeth o hynny. Os ddim, yna bydd y mater yn cael ei adrodd yn ōl i'r Pwyllgor.

Cadarnhaodd y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro a'r SIRO mai'r Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth Gorfforaethol sy'n gyfrifol ar lefel gorfforaethol am weithredu'r Cynllun Gweithredu.

- O ran cyflawni'r Cynllun Gweithredol Archwilio Mewnol ar gyfer 2018/91, nododd y Pwyllgor fod diffyg o 50 diwrnod o hyd yn yr amser sydd ar gael ar gyfer gwaith archwilio sy'n golygu na fydd Risgiau Gweddilliol Coch ac Ambr yn y Gofrestr Risg Gorfforaethol yn debygol o gael sylw 100%. Nododd y Pwyllgor fod hyn i'w briodoli i'r ffaith bod llai o adnoddau yn y Gwasanaeth gyda dwy swydd wag ac absenoldeb salwch hirdymor. Yn wir, roedd y Pwyllgor yn pryderu bod diffyg capasiti yn y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn ei atal rhag cyflawni ei gyfrifoldebau yn llawn; ac er bod y Pwyllgor yn cydnabod bod y Gwasanaeth yn gwneud ei orau i reoli'r sefyllfa trwy flaenoriaethu a thrwy ddefnyddio'r arian wrth gefn, roedd yn parhau i fod yn bryderus nad yw'r Gwasanaeth yn gallu rhoi sylw i feysydd risg gweddilliol Ambr a Choch i'r graddau ar i'r dyfnder y gallai wneud hynny petai'n rhedeg i'w gapasiti llawn ac roedd goblygiadau'r lefel ostyngol o wasanaeth ar gyfer rheoli'r risgiau hyn a'r posibilrwydd y gallai'r risgiau hynny gynyddu hefyd yn destun pryder.

  Dywedodd y Pennaeth Archwilio a Risg bod Cofrestr Risg Gorforaethol y Cyngor yn cael ei monitro bob chwarter gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth a bod y risgiau ynddi'n cael eu gwerthuso a'u hail-werthuso'n barhaus wrth i'r amgylchiadau newid. Mae Uwch Reolwyr hefyd yn monitro risgiau yn barhaus. Fel y gwelir o'r Cynllun Gweithredol yn Atodiad A, mae'r sgôr gorfforaethol ar gyfer rhai meysydd Coch / Ambr wedi cael ei gostwng ac / neu mae'r risg wedi'i dileu oherwydd bod y risg weddilliol wedi gostwng. Bydd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn parhau i gynnal golwg strategol ar y meysydd hynny nad yw'n bwriadu rhoi sylw manwyl iddynt ac os bydd unrhyw faterion yn cael eu nodi, bydd yn gwneud trefniadau i archwilio'r meysydd hynny yn fwy agos. Dywedodd y Swyddog ei bod bellach yn gallu adrodd bod y Gwasanaeth wedi recriwtio dau aelod newydd o staff ac y bydd un ohonynt yn cychwyn yn ei swydd ym mis Awst a'r llall ym mis Hydref; maent yn dod â phrofiad a setiau sgiliau amrywiol i'r swyddi hyn.

  **Penderfynwyd ar ôl ystyried y wybodaeth a'r sicrwydd a ddarparwyd ar lafar ac yn yr adroddiadau ysgrifenedig, bod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu -**

- **Yn nodi cynnydd diweddaraf y Gwasanaeth Archwilio Mewnol o ran y gwasanaeth y mae'n ei ddarparu, darpariaeth sicrwydd, adolygiadau a gwblhawyd, perfformiad ac effeithiolrwydd a gyrru gwellaint.**
- **Yn cymeradwyo'r trefniadau ar gyfer adolygu ei delerau ac amodau.**

DRAFT

**CAM GWEITHREDU YCHWANEGOL: Dim, ond bod y Pwyllgor yn nodi bod adroddiad diweddaru ar GDPR wedi’i raglennu ar gyfer ei gyflwyno i'w gyfarfod ym mis Medi.**

## 5. ADRODDIAD BLYNYDDOL ARCHWILIO MEWNOL 2017/18

Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2017/18 er sylw’r Pwyllgor. Mae'r adroddiad yn darparu dadansoddiad o berfformiad y Gwasanaeth AM am y cyfnod o 1 Ebrill, 2017 hyd 31 Mawrth, 2018 ac roedd yn cynnwys barn flynyddol y Prif Swyddog Archwilio (h.y. y Pennaeth Archwilio a Risg) ar ddigonolrwydd prosesau rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu'r Cyngor ar gyfer y cyfnod dan sylw.

Adroddodd y Pennaeth Archwilio a Risg, yn seiliedig a waith a gweithgareddau’r Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn ystod 2017/18 fel y'u dogfennwyd yn Atodiad A, ei bod yn gallau cadarnhau bod gan Gyngor Sir Ynys Môn, am y 12 mis a ddaeth i ben ar 31 Mawrth, 2018, fframwaith digonol ac effeithiol ar gyfer rheoli risg, llywodraethu a rheolaeth fewnol. Er nad oedd hi'n ystyried bod unrhyw feysydd o bryder corfforaethol sylweddol, mae angen gwella rhai meysydd neu gyflwyno rheolaeth fewnol er mwyn sicrhau bod amcanion yn cael eu cyflawni a bydd y rhain yn cael eu monitro. Nid oedd unrhyw amodau i’r farn hon.

O safbwynt perfformiad, dywedodd y Swyddog fod cymharu perfformiad y Gwasanaeth yn erbyn y targed a'i feincnodi gyda Phrif Grŵp Archwilwyr Cymru (Atodiad D) yn dangos ei fod yn y chwartel uchaf mewn pum maes ac yn y meysydd hynny nad yw ei berfformiad cystal, e.e. o safbwynt cost, gellir priodoli hynny i’r ffaith bod Ynys Môn yn awdurdod llai. Hefyd, tynnodd y Swyddog sylw at y ffaith bod y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn rhoi pwyslais ar hyfforddiant a datblygiad ac wedi buddsoddi'n sylweddol i sicrhau bod aelodau'r tîm yn parhau â'u datblygiad proffesiynol ac yn cadw i fynyd â’r risgiau a'r datblygiadau sy'n esblygu yn y sector.

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth a ddarparwyd. O safbwynt perfformiad, nododd y Pwyllgor fod perfformiad gwirioneddol y Gwasanaeth yn 29 yn erbyn targed o 44 (o gymharu â chyfartaledd WCAG o 69). Nododd y Pwyllgor hefyd mai’r farn yw nad oes unrhyw feysydd o bryder corfforaethol sylweddol, er gwaethaf y ffaith y dygwyd sylw at nifer o feysydd lle'r oedd y lefel sicrwydd yn gyfyngedig a lle'r oedd cynnydd yn araf neu oddi ar y trywydd yn ystod y flwyddyn.

Mewn perthynas â pherfformiad y Gwasanaeth, dywedodd y Pennaeth Archwilio a Risg ei bod, ar ôl edrych i mewn i’r sail ar gyfer cyfartaledd WCAG, wedi canfod bod rhai cynghorau'n diffinio archwiliad yn wahanol ac yn cynnwys gwirio gwybodaeth fel archwiliad, a dyna pam mae cyfartaledd WCAG yn uwch ar 61. Wedi'i feincnodi gyda'r chwe awdurdod yng Ngogledd Cymru, mae perfformiad gwasanaeth Archwilio Mewnol Ynys Môn yn cymharu'n dda. O ran nad oedd unrhyw feysydd o bryder corfforaethol, dywedodd y Pennaeth Archwilio a Risg mai dim ond 4 risg goch sydd bellach yn parhau i fod angen sylw ac wedi pwyso a mesur yr holl waith a wnaed, gallai gadarnhau ei bod hi o'r farn nad oedd unrhyw feysydd a oedd yn peri pryder sylweddol ar lefel gorfforaethol. Fodd bynnag, roedd meysydd y mae angen eu gwella ac mae’r rhain wedi cael ei nodi yn y farn.

**Penderfynwyd derbyn Adroddiad Blynyddol y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2017/18 a derbyn hefyd farn archwilio cyffredinol y Pennaeth Archwilio a Risg mewn perthynas â digonolrwydd ac effeithiolrwydd fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth y Cyngor ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth, 2018.**

DRAFT

**CAMAU GWEITHREDU YCHWANEGOL: Dim**

## 6. ARCHWILIAD ALLANOL: PARODRWYDD AR GYFER WYLFA NEWYDD A'I EFFAITH AR GAPASITI CORFFORAETHOL

Cyflwynwyd adroddiad yr Archwiliwr Allanol ar gyfer ystyriaeth y Pwyllgor.

Dywedodd Mr Huw Lloyd Jones, Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) fod Swyddogion Llywodraeth Cymru wedi trafod gyda'r Cyngor y posibilrwydd y gallai Llywodraeth Cymru ddarparu cymorth ychwanegol o ystyried graddfa a chymhlethdod prosiect Wylfa Newydd. Yn dilyn trafodaeth gyda'r Cyngor a Llywodraeth Cymru, penderfynwyd y byddai SAC yn cynnal adolygiad a fyddai'n canolbwyntio ar allu'r Cyngor i gyflawni ei amcanion strategol, tra'n rheoli a lliniaru'r risgiau sy'n gysylltiedig â phrosiect Wylfa Newydd. Edrychodd yr adolygiad ar allu a pharodrwydd y Cyngor i gefnogi cyflawni prosiect Wylfa Newydd yng nghyd-destun y Rhaglen Ynys Ynni ac amcanion strategol ehangach y Cyngor. Rhoddwyd ystyriaeth i a yw'r Cyngor yn meddu ar y cynlluniau a'r capsiti i wneud y gorau o'r cyfleoedd a lliniaru'r risgiau sy'n gysylltiedig â Wylfa Newydd heb beryglu ei allu i gyflawni ei holl flaenoriaethau a gwasanaethau.

Dywedodd y Swyddog fod yr adolygiad wedi canfod bod y Cyngor wedi gwneud cynnydd da fel yr awdurdod sy'n lletya prosiect Wylfa Newydd heb i hynny amharu ar gyflawni blaenoriaethau eraill ond bod cyfnod heriol o'n blaenau sy'n golygu y bydd cydweithrediad agos ymhlith partneriaid y sector cyhoeddus yn hanfodol. Mae'r adroddiad yn gwneud tri chynnig ar gyfer gwella. Mae'r rhain yn ymwneud â'r angen i'r Cyngor fonitro capasiti yn barhaus wrth i brosiect Wylfa Newydd fynd yn ei flaen; yr angen i'r Cyngor weithio gydag ymgynghoreion eraill y sector cyhoeddus i gydlynu'r asesiad o risgiau sy'n gysylltiedig â'r prosiect a rhannu gwybodaeth er mwyn sicrhau dealltwriaeth gyffredin o'r risgiau a sut y gellir eu lliniaru; a'r angen i'r Cyngor weithio gyda phartneriaid yn y sector cyhoeddus i nodi cyfrifoldebau arweiniol ar gyfer datblygu'r gadwyn gyflenwi a chynyddu cyfleoedd hyfforddi ar draws rhanbarth Gogledd Cymru.

Nododd y Pwyllgor fod nifer o gerrig milltir i'w cyrraedd cyn i'r prosiect ddwyn ffrwyth a bod yr elfen hon o ansicrwydd yn risg, yn enwedig o ran y buddsoddiad ariannol sydd ei angen wrth baratoi ar ei gyfer.

Dywedodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, Cymunedau a Gwella Gwasanaethau) ei bod hi'n croesawu'r adroddiad, yn enwedig y canfyddiad nad yw paratoi ar gyfer prosiect Wylfa Newydd wedi effeithio ar allu'r Cyngor i gyflawni ei ymrwymiadau craidd. Mae'r Cyngor yn sylweddoli'n llawn y gwaith sy'n gysylltiedig â pharatoi ar gyfer Wylfa Newydd ac mae tîm penodol wedi cael ei sefydlu a strwythurau priodol wedi cael eu rhoi yn eu lle i ddelio â'r prosiect hwn a chyda phrosiect y Grid Cenedlaethol. Mae Tîm Cymru, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r holl bartneriaid allweddol, hefyd wedi cael ei sefydlu a chafodd ei gyfarfod cyntaf yn ddiweddar. Yn ogystal, mae'r Cyngor wedi bod yn cydgysylltu a chydweithio â sefydliadau partner ar brosiect Wylfa Newydd ers amser maith ac wedi bod yn darparu cefnogaeth wrth ymateb i ddogfennaeth Horizon, gan gynnwys rhannu gwybodaeth a thempledi o ddogfennau allweddol. Dywedodd y Swyddog fod y Cyngor yn cydnabod bod rhannu arbenigedd yn hanfodol a bod gweithio mewn partneriaeth yn berthynas ddwy ffordd sy'n fuddiol i'r holl bartneriaid. Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi bod yn glir o'r cychwyn bod rhai cyfrifoldebau y mae'n briodol i'r Cyngor arwain arnynt yn unol â'r "egwyddor agosrwydd" tra bod eraill, yn cynnwys datblygu'r gadwyn gyflenwi, yn gorfod cael eu trin ar lefel ranbarthol. Mae'r drafodaeth hon wedi cychwyn trwy Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Er bod y penderfyniad

terfynol eto i'w wneud ynghylch buddsoddiad, rhaid i'r paratoadau ar gyfer prosiect Wylfa Newydd fynd yn eu blaenau. Elfen allweddol o'r paratoadau hynny yw buddsoddi yn y farchnad lafur yng Ngogledd Cymru trwy ddatblygu sgiliau fel y gall y gweithlu presennol a'r boblogaeth ddi-waith fanteisio ar y cyfleoedd cyflogaeth a fydd ar gael trwy brosiect Wylfa Newydd a mentrau economaidd eraill sy'n cael eu datblygu yn y rhanbarth.

Croesawodd y Prif Weithredwr dôn gadarnhaol yr adroddiad fel rhywbeth sy'n tystio i waith pawb yn y Cyngor, p'un a  ydynt yn Aelodau, Swyddogion neu'n staff. Mae'r adroddiad yn cydnabod, er bod y baich gwaith ar Aelodau Etholedig, Uwch Reolwyr a Phenaethiaid Gwasanaeth yn drwm, eu bod yn ymdopi'n dda yn gyffredinol. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod gwaith sylweddol i'w wneud o hyd wrth i brosiect Wylfa Newydd fynd rhagddo ac y bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud ar y cyd â phartneriaid. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn awyddus i sicrhau bod y prosiect yn arwain at y buddiannau etifeddiaeth hirdymor gorau posibl i breswylwyr yr Ynys ac ymhellach draw ac y bydd y Cyngor yn gweithio gyda'i bartneriaid er mwyn sicrhau bod hynny'n cael ei gyflawni. Diolchodd y Prif Weithredwr i Swyddogion SAC am trafodaethau yn ystod y gwaith maes a fu'n werthfawr ac yn gynhyrchiol.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor fod yr adroddiad yn adeiladol ac yn ddefnyddiol i grisialu'r sefyllfa. Mae'r Cyngor fel yr awdurdod sy'n lletya'r datblygiad wedi bod yn buddsoddi yn, ac yn arwain ar y paratoadau ar gyfer Wylfa Newydd dros nifer o flynyddoedd ac wedi ymrwymo i'r Rhaglen Ynys Ynni ac i gael a choladu'r wybodaeth sydd wedi dod â'r Awdurdod i'r pwynt hwn. Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod y paratoadau parhaus ar gyfer Wylfa Newydd yn cynnwys partneriaid eraill yn y sector cyhoeddus; mae'n bwysig felly fod pob sefydliad partner yn deall eu cyfrifoldebau wrth symud ymlaen. Dywedodd yr Arweinydd ei bod hi hefyd yn ddiolchgar i'w chyd-Aelodau am eu hymrwymiad i'r broses ac am fod mor drwyadol yn eu hymgais i sicrhau eglurder ar hyd y ffordd.

**Penderfynwyd derbyn a nodi adroddiad yr Archwiliwr Allanol.**

**CAMAU GWEITHREDU YCHWANEGOL: Dim**

**7.  BLAEN RAGLEN WAITH**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg yn ymgorffori Rhaglen Waith y Pwyllgor hyd at Ebrill, 20120 er sylw ac ystyriaeth y Pwyllgor.

Dywedodd y Pennaeth Archwilio a Risg y bydd Rhaglen Waith y Pwyllgor yn debygol o newid ac ehangu yn dilyn yr adolygiad o'i gylch gorchwyl.

**Penderfynwyd derbyn a nodi'r Flaen Raglen Waith heb ei diwygio**

**CAMAU GWEITHREDU YCHWANEGOL: Dim**

**Y Cynghorydd Peter Rogers**
**Cadeirydd**

DRAFT

DRAFT

This page is intentionally left blank

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN** | |
|---|---|
| **Adrodd i:** | Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu |
| **Dyddiad:** | 24 Gorffennaf 2018 |
| **Pwnc:** | Diweddariad Archwilio Mewnol |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Marc Jones, Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151<br>01248 752601<br>MarcJones@ynysmon.gov.uk |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Marion Pryor, Pennaeth Archwilio a Risg<br>01248 752611<br>MarionPryor@ynysmon.gov.uk |
| **Natur a Rhesymau dros Adrodd:**<br>Mae'r adroddiad hwn yn darparu gwybodaeth am waith a wnaeth gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor. Mae'n caniatáu i'r Pwyllgor fonitro cynnydd a pherfformiad y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ac mae'n rhoi crynodebau o adroddiadau Archwilio Mewnol fel y gall y Pwyllgor gael sicrwydd ynghylch gwasanaethau a meysydd corfforaethol eraill y Cyngor. | |

## 1. Rhagarweiniad

1.1. Mae'r adroddiad yn rhoi diweddariad ar y sefyllfa fel yr oedd ar 16 Gorffennaf 2018 ynghylch:

- Adroddiadau Archwilio Mewnol a gyhoeddwyd ers 8 Mehefin 2018
- Gwaith dilyn i fyny a wnaed ar adroddiadau archwilio mewnol blaenorol
- Gweithredu camau rheoli
- Y cynnydd a wnaed o ran cyflawni'r Cynllun Archwilio Mewnol Blynyddol ar gyfer 2018/19
- Adolygu cylch gorchwyl y Pwyllgor

## 2. Argymhelliad

2.1. Bod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn nodi'r cynnydd a wnaed gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol o ran ei ddarpariaeth gwasanaeth, darparu sicrwydd, yr adolygiadau a gwblhawyd a pherfformiad ac effeithiolrwydd y gwasanaeth o ran gyrru gwelliant. Yn ogystal gofynnir i'r Pwyllgor benderfynu a oes angen sicrwydd pellach arno ynghylch adroddiadau archwilio.

CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

# Diweddariad Archwilio Mewnol

## Gorffennaf 2018

**Marion Pryor BA MA CMIIA CPFA**
**Head of Audit & Risk**

## Adroddiadau Archwilio Mewnol a gyhoeddwyd yn ddiweddar

1. Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn rhoi trosolwg o adroddiadau Archwilio Mewnol diweddar, gan gynnwys y Raddfa Sicrwydd gyffredinol a nifer y Materion / Risgiau a godir yng nghynllun gweithredu'r adroddiad.

2. Rydym wedi cwblhau dau adroddiad yn y cyfnod hwn a cheir crynodeb ohonynt isod:

| Teitl | Lefel Sicrwydd | Catastroffig | Uchel | Cymedrol | Isel | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid (DoLS) | **Rhesymol** | 0 | 0 | 0 | 3 | 3 |
| Grant Rhentu Doeth Cymru – Tystysgrif Archwilio | **Sylweddol** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |

## Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid (DoLS)

| | Risgiau / Materion | |
|---|---|---|
| **Sicrwydd Rhesymol** | 0 | Catastroffig |
| | 0 | Uchel |
| | 0 | Canolig |
| | 3 | Isel |

3. Yn dilyn cynnydd sylweddol yn nifer y ceisiadau i awdurdodi, roedd y gwasanaeth yn ei chael yn anodd cwrdd â'r galw. Ni ddarparwyd adnoddau ychwanegol i gynnal yr asesiadau ac o ganlyniad mae'r rhestr aros am asesiad yn parhau i dyfu.

4. Fodd bynnag, mae'r gwasanaeth wedi rhoi sylw i'r mater drwy sicrhau cyllid pellach i benodi swyddogion i gwblhau'r asesiadau ar gyfer y rhai sydd ar y rhestr aros yn barod, sydd mewn lle ar gyfer 2018/19. Mae dau aelod o staff asiantaeth wedi bod yn y swydd o ganol Ebrill 2018 am gyfnod o ddeg wythnos er mwyn helpu i leihau'r ôl-groniad yn y rhestr aros yn y tymor byr, tra bod hysbyseb wedi'i chyhoeddi am ddau Asesydd Budd Pennaf llawn amser, parhaol.

5. Mae'r aseswyr a ddefnyddir yn cydymffurfio â'r Cod Ymarfer ac yn ystod y pedwar mis diwethaf, mae nifer y meddygon cofrestredig sy'n fodlon ymgymryd ag asesiadau ar ran y Cyngor wedi cynyddu o un i saith, gyda nifer y meddygon sy'n siarad Cymraeg yn cynyddu i un.

6. Mae trefniadau llywodraethu mewnol yn effeithiol gyda phroses mewn lle i awdurdodi a thrafod asesiadau yn ffurfiol a darperir gwybodaeth am berfformiad i AGC (Arolygiaeth Gofal Cymru).

7. Rhannwyd gwybodaeth gyda chartrefi gofal mewn perthynas â DoLS a threfnwyd sesiynau hyfforddiant ar gyfer aelodau perthnasol o staff gyda rhagor o hyfforddiant wedi'i gynllunio yn y dyfodol agos.

8. Gwnaethpwyd llawer o gynnydd yn ystod y misoedd diwethaf o ran rhoi sylw i'r broblem adnoddau a gobeithir y bydd yr ymdrech ychwanegol hon yn dwyn ffrwyth yn ystod y misoedd nesaf. Fodd bynnag, mae hyn yn dibynnu ar ffactorau allanol megis y gallu i benodi aseswyr ac argaeledd meddygon i gwblhau asesiadau.

9. O'r herwydd gallwn ddarparu '**Sicrwydd Rhesymol**' ar gyfer rheoli Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid (DoLS) gan fod y gwasanaeth wedi sicrhau cyllid ychwanegol i roi sylw i'r prif risg, e.e. yr angen i gwblhau'r asesiadau DoLS yn unol â'r ddeddfwriaeth.

## Grant Rhentu Doeth Cymru – Tystysgrif Archwilio

| Sicrwydd Sylweddol | Risgiau / Materion | |
|---|---|---|
| | 0 | Catastroffig |
| | 0 | Uchel |
| | 0 | Cymedrol |
| | 0 | Isel |

10. O’n hadolygiad o fesurau rheoli a chofnodion y grant, rydym yn gallu darparu sicrwydd fod y tîm Gwarchod y Cyhoedd wedi cynnal mesurau rheoli a chofnodion priodol mewn perthynas â’r grant ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2017 – 31 Mawrth 2018.

11. Yn ogystal gallwn gadarnhau fod y gwariant a hawliwyd yn gymwys yn unol â thelerau ac amodau’r grant a’i fod wedi’i ddatgan yn deg yng nghyfrifon y Cyngor ac yn y cais a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru.

.

## Dilyn i Fyny Adroddiadau Archwilio Mewnol Blaenorol

12. Ar hyn o bryd rydym yn dilyn i fyny'r holl adroddiadau gyda sgôr sicrwydd o ‘Cyfyngedig’ neu is.

13. Mae chwech adolygiadau dilyn i fyny wedi eu trefnu dros y chwe mis nesaf. Mae’r tri a amserlennwyd ar gyfer Gorffennaf 2018 yn digwydd ar hyn o bryd:

| Teitl yr Archwiliad | Rheswm dros yr Adolygiad | Dyddiad Dilyn i Fyny | Lefel Sicrwydd | Catastroffig | Uchel | Canolig | Isel | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dyledwyr Amrywiol** | Dilyn i fyny am y tro cyntaf | Gorff 18 | Cyfyngedig | 0 | 7 | 9 | 3 | 19 |
| **Gorchmynion Llys Gofal Plant o dan yr Amlinelliad Cyfraith Cyhoeddus** | Dilyn i fyny am yr ail dro | Gorff 18 | Cyfyngedig | 1 | 3 | 3 | 1 | 8 |
| **Fframwaith Caffael Corfforaethol** | Dilyn i fyny am yr ail dro | Gorff 18 | Cyfyngedig | 1 | 1 | 9 | 1 | 12 |
| **Paratoadau’r Cyngor ar gyfer y GDPR** | Dilyn i fyny am y tro cyntaf | Gorff 18 | Cyfyngedig | 0 | 6 | 1 | 1 | 8 |
| **Cydymffurfio â Safon Diogelwch Data y Diwydiant Cardiau Talu** | Dilyn i fyny am yr ail dro | Gorff 18 | Cyfyngedig | 0 | 6 | 4 | 1 | 11 |
| **Rheoli systemau – Mynediad Rhesymegol a Gwahanu Dyletswyddau** | Dilyn i fyny am y trydydd tro | Gorff 18 | Cyfyngedig | 0 | 3 | 2 | 0 | 5 |

## Camau Gweithredu gan Reolwyr

14. Oherwydd bod y cyfarfod hwn yn cael ei gynnal yn fuan ar ôl cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, ni pharatowyd adroddiad diweddaru ar gyfer y cyfarfod hwn. Fodd bynnag, cyflwynir adroddiad manwl ar yr holl argymhellion sy'n parhau a'r Materion/Risgiau ym mis Medi 2018.

## Cynnydd o ran cyflenwi'r Cynllun Gweithredol Archwilio Mewnol 2018/19

15. Mae'r Mae'r Cynllun presennol ynghlwm yn Atodiad A. Er bod cynnydd wedi bod yn araf oherwydd yr angen i gwblhau Cynllun 2017/18, dwy swydd wag ac un absenoldeb tymor hir, hyd yn hyn rydym wedi cwblhau un archwiliad, un Gwiriad Cyfrif Terfynol ac ardystiad grant. Yn ogystal ag ymgymryd â gwaith dilyn i fyny, mae gwaith yn cael ei wneud ar ddau faes ar hyn o bryd:

    - Adolygiad Thematig Ysgolion Cynradd – Casglu Incwm
    - Trefniadau Monitro Cytundeb Priffyrdd

16. Yn ogystal rydym yn cymryd rhan mewn tri ymchwiliad sy'n parhau ac yn trosglwyddo'r cofrestri risg i'r meddalwedd Rheoli Risg newydd yn ogystal â gweithio gyda gwasanaethau i sicrhau ansawdd eu risgiau.

17. Rydym wedi llwyddo i recriwtio dau Uwch Archwilydd Mewnol, gydag un yn dechrau yn y swydd ddiwedd mis Awst a'r llall ym mis Hydref.

## Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu

18. Bydd y cylch gorchwyl yn cael ei gyflwyno i'w gymeradwyo i'r cyfarfod ym mis Medi 2018 cyn iddo gael ei gymeradwyo'n ffurfiol drwy'r broses ddemocrataidd.

## Atodiad A – Cynllun Gweithredol Archwilio Mewnol 2018/19

| Gwasanaeth / Adain | Teitl | Rheswm dros ei gynnwys | Graddfa Risg Gorfforaethol (Gweddilliol) | Cynllun Diwygiedig 2018/19 | Nifer dyddiau gwirionedd ol ar 13/07/18 | Nodiadau / Lefel Sicrwydd | Targed / Dyddiad Gwirionedd ol Adrodd i'r Pwyllgor |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **CORFFORAETH GYFAN** | | | | | | | |
| Corfforaethol | Parhad Busnes | Cofrestr Risg Gorfforaethol | C2 YM10 | 10 | | | |
| Corfforaethol | Diwygio Budd-daliadau | Cofrestr Risg Gorfforaethol | C2 YM11 | 10 | | | |
| Corfforaethol | Diogelu Corfforaethol | Cofrestr Risg Gorfforaethol | C1 YM12 | 10 | | | |
| Corfforaethol | CONTEST (Atal Terfysgaeth ac Atal Radicaleiddio) | Cofrestr Risg Gorfforaethol | E1 YM34 | 10 | | | |
| Corfforaethol | Safonau Diogelwch Data y Diwydiant Cardiau Talu | Cofrestr Risg Gorfforaethol | D1 YM41 | 10 | | | Chwefror 2019 |
| Corfforaethol | Rheoli Risg | Sicrwydd cyfyngedig (Awst 2015). Gweithredwyd proses newydd ym mis Hydref 2017. | Amherthnasol | 5 | | | |
| Corfforaethol | Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | Deddfwriaeth proffil uchel sy'n cael effaith sylweddol ar y ffordd mae'r Cygor yn gweithio. Bydd yn destun adolygiad penodol gan Swyddfa Archwilio Cymru | Amherthnasol | 5 | | | |
| Corfforaethol | Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant – gofynion Rhan 9 | Deddfwriaeth proffil uchel sy'n cael effaith sylweddol ar y ffordd mae'r Cyngor yn gweithio. Estyniad gan LlC | Amherthnasol | 5 | | | |

| Gwasanaeth / Adain | Teitl | Rheswm dros ei gynnwys | Graddfa Risg Gorfforaethol (Gweddilliol) | Cynllun Diwygiedig 2018/19 | Nifer dyddiau gwirionedd ol ar 13/07/18 | Nodiadau / Lefel Sicrwydd | Targed / Dyddiad Gwirionedd ol Adrodd i'r Pwyllgor |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | i weithredu cyllidebau wedi'u cyfuno | | | | | |
| Corfforaethol | Rheoli Risg Twyll | Gofyniad gan PSIAS | Amherthnasol | 10 | | | |
| **ADNODDAU** | | | | | | | |
| Adnoddau | Adennill a Dileu dyledion | Systemau Ariannol Allweddol – pryderon A151 | Amherthnasol | 15 | | | |
| Adnoddau | Incwm | System Ariannol Allweddol – sicrwydd archwilio allanol | Amherthnasol | 15 | | | |
| Adnoddau | Cyflogres | System Ariannol Allweddol – sicrwydd archwilio allanol | Amherthnasol | 15 | | | |
| **TRAWSNEWID** | | | | | | | |
| TGCh | Archwiliad TG – Diogelwch Seibr | Cofrestr Risg Gorfforaethol | C1 YM35 | 15 | | | |
| TGCh | Archwiliad TG – Seilwaith TG | Cofrestr Risg Gwasanaeth | D2 T2 | 10 | | | |
| AD | Recriwtio a Chadw | Cofrestr Risg Gorfforaethol | C2 YM5 | 15 | | | |
| **RHEOLEIDDIO A DATBLYGU ECONOMAIDD** | | | | | | | |
| Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Rhaglen Ynys Ynni (yn cynnwys cynlluniau mawr megis Wylfa Newydd) | Cofrestr Risg Gorfforaethol | C2/D2 YM15 YM19/20 | 10 | | | |
| Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Gwasanaethau Hamdden | Cofrestr Risg Gorfforaethol | B3 YM39 | 10 | | | |
| Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Gwasanaethau Hamdden – Llywodraethiant a Rheolaeth | Cais y Pennaeth Gwasanaeth – newidiadau strwythurol mawr | Amherthnasol | 15 | | Wedi ei gario drosodd o 2017/18 | |

Tudalen 25

| Gwasanaeth / Adain | Teitl | Rheswm dros ei gynnwys | Graddfa Risg Gorfforaethol (Gweddilliol) | Cynllun Diwygiedig 2018/19 | Nifer dyddiau gwirioneddol ar 13/07/18 | Nodiadau / Lefel Sicrwydd | Targed / Dyddiad Gwirioneddol Adrodd i'r Pwyllgor |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **PRIFFYRDD, GWASTRAFF A GWASANAETHAU EIDDO** | | | | | | | |
| Priffyrdd | Gwasanaethau Parcio Ceir – Gorfodaeth | Arbrawf newydd mewn lle o 2017/18 gyda sefydliad allanol ar gyfer gorfodi rheolau parcio | Amherthnasol | 15 | | | |
| Priffyrdd | Trefniadau Monitro Contract Priffyrdd | Cais y Pennaeth Gwasanaeth | Amherthnasol | 15 | 5 | Wedi ei gario drosodd o 2017/18 | Medi 2018 |
| **TAI** | | | | | | | |
| Tai / Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Datblygu Tai Cyngor | Cofrestr Risg Gorfforaethol | C1 YM 42 | 15 | | | |
| Tai | Sipsiwn a Theithwyr (Gofynion Deddf Tai 2014) | Cofrestr Risg Gorfforaethol | C2/A4 YM36/37 | 10 | | | |
| **GWASANAETHAU OEDOLION** | | | | | | | |
| Oedolion | Trefniadau Diogelu rhag Collid Rhyddid | Cofrestr Risg Gorfforaethol | C2 YM32 | 15 | 8.75 | **Rhesymol** | **Gorffennaf 2018** |
| Oedolion | Taliadau Uniongyrchol | Cais y Pennaeth Gwasanaeth | | 10 | 0.5 | Wedi ei gario drosodd o 2017/18 | Medi 2018 |
| **GWASANAETHAU PLANT** | | | | | | | |
| Plant | Bwrdd Integredig Cyflenwi Gwasanaeth | Cofrestr Risg Gorfforaethol | C2 YM43 | 10 | | | |
| **DYSGU** | | | | | | | |
| Dysgu | Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) – gweithredu mewn Ysgolion | Cofrestr Risg Gorfforaethol | C2 YM38 | 10 | | | |
| Dysgu | Adolygiadau Thematig Ysgolion Cynradd | Cais y Pennaeth Gwasanaeth | | 20 | 12.25 | Wedi ei gario | Medi 2018 |

| Gwasanaeth / Adain | Teitl | Rheswm dros ei gynnwys | Graddfa Risg Gorfforaethol (Gweddilliol) | Cynllun Diwygiedig 2018/19 | Nifer dyddiau gwirionedd ol ar 13/07/18 | Nodiadau / Lefel Sicrwydd | Targed / Dyddiad Gwirionedd ol Adrodd i'r Pwyllgor |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | drosodd o 2017/18 | |
| | **CYFANSWM ARCHWILIADAU** | | | **315** | | | |
| **DYDDIAU HEB EU RHAGLENNU Y GELLIR CODI AMDANYNT (CYNHYRCHIOL)** | | | | | | | |
| | Gwaith Dilyn i Fyny | Nifer o adroddiadau sicrwydd cyfyngedig angen eu dilyn i fyny, yn cynnwys adrodd a gweinyddu 4Action | | 50 | 11.5 | | |
| | Gwaith Atal Twyll Cyffredinol, Menter Twyll Cenedlaethol, ymholiadau ac atgyfeiriadau | | | 60 | 18.75 | | |
| | Cau gwaith y flwyddyn flaenorol | | | 17.5 | 17.5 | | |
| | **Ardystio Grantiau:**<br>• Grant Rhentu Doeth Cymru<br>• Grant Gwisg Ysgol<br>• Grant Gwella Addysg<br>• Grant Datblygu Disgyblion<br>• Chweched Dosbarth a Dysgu Parhaus Oedolion | Gofynion grant | | 10 | 3.5 | **Sylweddol** | **Gorffennaf 2018**<br>Medi 2018<br>Medi 2018<br>Medi 2018<br>Medi 2018 |
| | Ymgynghoriaeth Corfforaethol | | | 60 | 11.25 | | |

| Gwasanaeth / Adain | Teitl | Rheswm dros ei gynnwys | Graddfa Risg Gorfforaethol (Gweddilliol) | Cynllun Diwygiedig 2018/19 | Nifer dyddiau gwirioneddol ar 13/07/18 | Nodiadau / Lefel Sicrwydd | Targed / Dyddiad Gwirioneddol Adrodd i'r Pwyllgor |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, yn cynnwys hyfforddiant i aelodau | | | 40 | 12.75 | | |
| | Adolygiad Rheoli | | | 40 | 3 | | |
| | Digwyddiadau Annisgwyl | | | 5 | | | |
| | **CYFANSWM** | | | **282.5** | | | |
| **DYDDIAU NAD OES MODD CODI AMDANYNT (DDIM YN GYNHYRCHIOL)** | | | | | | | |
| | Risg ac Yswiriant | | | 20 | 5 | | |
| | Gweinyddu Cyffredinol | | | 40 | 7 | | |
| | Datblygiad Personol ac Adolygiad, Cyfarfodydd 121 a Thîm | | | 30 | 0.75 | | |
| | Rheoli, yn cynnwys cysylltu ag Archwilio Allanol a pharatoi cynllun archwilio | | | 40 | 14.25 | | |
| | Gwyliau, yn cynnwys blynyddol, statudol, arbennig a salwch | | | 365 | 96 | | |
| | Hyfforddiant a Datblygiad staff, yn cynnwys sesiynau cynefino a gwersi Cymraeg | | | 79 | 16.25 | | |
| | **CYFANSWM** | | | **574** | | | |
| | **CYFANSWM ADNODD** | | | **1172** | | | |
| | **ADNODD SYDD AR GAEL** | | | **1129** | | | |
| | **DIFFYG O RAN ADNODD** | | | **-43** | | | |
| | **CYNHYRCHIANT** | | | **52%** | | | |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU** |
| **DYDDIAD:** | **24 GORFFENNAF 2018** |
| **PWNC:** | **ADOLYGIAD BLYNYDDOL AR REOLI TRYSORLYS AM 2017/18** |
| **AELOD(AU) PORTFFOLIO:** | **Y CYNGHORYDD R WILLIAMS** |
| **SWYDDOG(ION) ARWEINIOL:** | **R MARC JONES** |
| **SWYDDOG(ION) CYSWLLT:** | **GARETH ROBERTS/CLAIRE KLIMASZEWSKI (EST. 2675/1865)** |

**Natur a rheswm am adrodd**

Cydymffurfio â'r rheoliadau a gyflwynwyd dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 a chyda Chynllun Dirprwyo'r Cyngor ar gyfer Materion Rheoli Trysorlys am y cyfnod 2017/18 (Atodiad 8 o Ddatganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys 2017/18). Yn unol â'r Cynllun Dirprwyo, caiff yr adroddiad hwn ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith ac yna i'r Cyngor llawn yn dilyn ei sgriwtineiddio gan y Pwyllgor hwn.

**Crynodeb**

Mae'n rhaid i'r Cyngor hwn, yn unol â rheoliadau dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003, gynhyrchu adolygiad blynyddol ar reoli trysorlys yn adlewyrchu gweithgareddau Rheoli Trysorlys a'r dangosyddion pwyllog a thrysorlys gwirioneddol am 2017/18. Mae'r adroddiad hwn yn bodloni gofynion côd ymarfer CIPFA ar Reoli Trysorlys (y Côd) a Chôd Pwyllog CIPFA ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol (Y Côd Pwyllog).

Yn ystod 2017/18, y gofynion lleiaf ynglŷn ag adrodd yn ôl oedd bod y Cyngor llawn yn derbyn yr adroddiadau canlynol:-

- strategaeth flynyddol ar gyfer y trysorlys cyn i'r flwyddyn gychwyn (derbyniwyd ar 28 Chwefror 2017);
- adroddiad diweddaru canol y flwyddyn ar y trysorlys (derbyniwyd ar 28 Chwefror 2018);
- adolygiad blynyddol wedi i'r flwyddyn ddod i ben yn disgrifio'r gweithgaredd o'i gymharu â'r strategaeth (sef yr adroddiad hwn).

Mae'r amgylchedd rheoleiddiol yn rhoi'r cyfrifoldeb ar Aelodau i adolygu a sgriwtineiddio polisi a gweithgareddau rheoli trysorlys. O'r herwydd, mae'r adroddiad hwn yn bwysig gan ei fod yn darparu manylion am yr alldro mewn perthynas â gweithgareddau trysorlys ac mae'n dwyn sylw at gydymffurfiaeth â pholisïau'r Cyngor a gymeradwywyd yn flaenorol gan Aelodau.

Mae'r Cyngor yn cadarnhau ei fod wedi cydymffurfio gyda'r gofyniad o dan y Côd bod y Pwyllgor Archwilio yn sgriwtineiddio'r holl adroddiadau rheoli trysorlys uchod cyn eu cyflwyno i'r Cyngor llawn.

Er mwyn cefnogi rôl sgriwtini aelodau'r Pwyllgor Archwilio, darparwyd hyfforddiant ar gyfer Aelodau ar faterion rheoli trysorlys yn ystod mis Mehefin 2018.

Yn ystod 2017/18, cydymffurfiodd y Cyngor â'r anghenion deddfwriaethol a rheoleiddiol. Mae'r dangosyddion pwyllog a thrysorlys gwirioneddol allweddol sy'n manylu ar effaith gweithgareddau gwariant cyfalaf yn ystod y flwyddyn, gyda chymaryddion, fel a ganlyn:-

| Data ar gyfer Dangosyddion Pwyllog a Thrysorlys Gwirioneddol | 2016/17 Gwirioneddol £000 | 2017/18 Gwreiddiol £000 | 2017/18 Gwirioneddol £000 |
|---|---|---|---|
| Gwariant Cyfalaf<br>• Dim-CRT<br>• CRT<br>• Cyfanswm | <br>28,033<br>8,607<br>36,640 | <br>39,799<br>12,873<br>52,672 | <br>20,064<br>9,291<br>29,355 |
| Cyfanswm Gofyniad Cyllido Cyfalaf<br>• Dim-CRT<br>• CRT<br>• Cyfanswm | <br>91,515<br>42,499<br>134,014 | <br>101,286<br>41,648<br>142,934 | <br>95,218<br>41,648<br>136,866 |
| Benthyca Gros | 117,110 | 125,018 | 117,029 |
| Dyled Allanol | 117,110 | 125,018 | 117,029 |
| Byddsoddiadau<br>• Mwy na blwyddyn<br>• Dan flwyddyn<br>• Cyfanswm | <br><br>13,319<br>13,319 | <br><br>15,000<br>15,000 | <br>-<br>5,993<br>5,993 |

Gellir gweld dangosyddion pwyllog a thrysorlys eraill ym mhrif gorff yr adroddiad hwn. Mae'r Swyddog Adran 151 hefyd yn cadarnhau y benthycwyd arian i bwrpas cyfalaf yn unig ac na chafodd y terfynau benthyca statudol (y terfyn awdurdodedig) eu torri.

Gwelwyd yr un amgylchedd buddsoddi heriol yn ystod blwyddyn ariannol 2017/18 â'r blynyddoedd cynt, sef dychweliadau isel ar fuddsoddiadau.

**ARGYMHELLION**

Argymhellir bod y Pwyllgor yn:-

**(i)** Nodi y bydd y ffigyrau alldro yn yr adroddiad hwn yn parhau i fod yn rhai dros dro hyd nes bydd yr archwiliad o Ddatganiad Cyfrifon 2017/18 wedi ei gwblhau a'i lofnodi; adroddir fel sy'n briodol ar unrhyw addasiadau sylweddol i'r ffigyrau sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad hwn;
**(ii)** Nodi'r dangosyddion pwyllog a thrysorlys dros dro ar gyfer 2017/18 sydd yn yr adroddiad hwn;
**(iii)** Ystyried yr adroddiad rheoli trysorlys blynyddol am 2017/18 a'i gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith nesaf gydag unrhyw sylwadau.

**Atodiadau:**

Atodiad 1 - Crynodeb o Werth y Portffolio ar 31 Mawrth 2018
Atodiad 2 - Graddfeydd Credyd gwrthbartïon buddsoddi a'r adneuon a ddelir gyda phob un ar 31 Mawrth 2018
Atodiad 3 - Graddfeydd Credyd gwrthbartïon buddsoddi a'r adneuon a ddelir gyda phob un ar 3 Gorffennaf 2018
Atodiad 4 - Sylwadau gan Capita Asset Services ar yr Economi, Buddsoddiad a Graddfeydd Benthyca

**Papurau Cefndirol:**

Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys 2017/18
Dangosyddion Pwyllog a Thrysorlys am 2017/18
Adroddiad ar yr Adolygiad Canol Blwyddyn o Reoli Trysorlys 2017/18
Adroddiad Alldro Cyfalaf 2017/18

## 1. RHAGARWEINIAD

Mae’r adroddiad hwn yn crynhoi’r swyddogaethau/gweithgareddau/ canlyniadau canlynol ym mlwyddyn ariannol 2017/18:-

- Gweithgaredd Cyfalaf;
- Effaith y gweithgaredd hwn ar ddyled waelodol y Cyngor (y Gofyniad Cyllido Cyfalaf);
- Y dangosyddion pwyllog a thrysorlys gwirioneddol;
- Sefyllfa gyffredinol y trysorlys gan nodi sut y mae’r Cyngor wedi benthyca mewn perthynas â’r ddyled hon a’r effaith ar falansau buddsoddi;
- Symudiadau’r graddfeydd llog yn y flwyddyn;
- Gweithgareddau manwl o ran dyledion; a
- Gweithgareddau buddsoddi manwl.

## 2. GWARIANT AC ARIANNU CYFALAF Y CYNGOR 2017/18

**2.1** Mae’r Cyngor yn ymgymryd â gwariant cyfalaf ar asedau tymor hir. Fe all y gweithgareddau hyn fod naill ai:-

- Wedi eu cyllido ar unwaith trwy ddefnyddio adnoddau cyfalaf neu refeniw (derbyniadau cyfalaf, grantiau cyfalaf, cyfraniadau refeniw ac ati) nad ydynt yn cael effaith ar angen y Cyngor i fenthyca; neu

- Wedi eu cyllido trwy fenthyca: gallai hynny fod trwy fenthyca wedi ei gynllunio neu fel arall. Os nad oes digon o gyllid ar gael, neu os gwneir penderfyniad i beidio defnyddio adnoddau, bydd y gwariant cyfalaf yn creu'r angen i fenthyca.

**2.2** Mae’r gwariant cyfalaf gwirioneddol yn ffurfio un o’r dangosyddion pwyllog sydd eu hangen. Mae’r tabl isod yn dangos gwariant cyfalaf gwirioneddol a sut y cafodd ei ariannu.

| | 2016/17 Gwirioneddol (£m) | 2017/18 Amcangyfrif (£m) | 2017/18 Gwirioneddol (£m) |
|---|---|---|---|
| Gwariant Cyfalaf heb fod yn CRT | 28 | 40 | 20 |
| Gwariant Cyfalaf CRT | 9 | 13 | 9 |
| **Cyfanswm Gwariant Cyfalaf** | **37** | **53** | **29** |
| Wedi ei gyllido yn y flwyddyn y tu allan i’r CRT | 28 | 40 | 20 |
| Wedi ei gyllido gan y CRT yn y flwyddyn | 9 | 13 | 9 |
| Gwariant Cyfalaf heb fod yn CRT a gafodd ei gyllido drwy fenthyca | **11** | **13** | **7** |
| **Gwariant Cyfalaf CRT a gafodd ei gyllido drwy fenthyca** | **0** | **0** | **0** |

## 3. ANGEN CYFFREDINOL Y CYNGOR I FENTHYCA

**3.1** Mae angen sylfaenol y Cyngor i fenthyca ar gyfer gwariant cyfalaf yn cael ei alw yn Ofyniad Cyllido Cyfalaf (CFR). Mae'r ffigwr hwn yn fesur o sefyllfa'r Cyngor o ran dyledion. Mae'r CFR yn deillio o weithgaredd cyfalaf y Cyngor a pha adnoddau a ddefnyddiwyd i dalu am y gwariant cyfalaf. Mae'n cynrychioli gwariant cyfalaf 2017/18 a ariannwyd drwy fenthyca (gweler y tabl uchod), a gwariant cyfalaf a ariannwyd drwy fenthyca yn y blynyddoedd blaenorol nad ydyw eto wedi cael ei dalu trwy refeniw neu adnoddau eraill. Dengys y tabl uchod fod £7m o wariant cyfalaf cronfa'r Cyngor yn cael ei ariannu drwy fenthyca. Ni chymerwyd unrhyw fenthyciadau allanol Tymor Hir gwirioneddol yn ystod y flwyddyn, yn hytrach, benthycwyd yn fewnol gyda balansau'r Cyngor yn cyllido hyn yn y tymor byr er mwyn gostwng taliadau llog. Fodd bynnag, y disgwyliad yw yn y tymor hir i fenthyca er mwyn ailgyflenwi balansau'r Cyngor.

**3.2** Rhan o weithgareddau trysorlys y Cyngor yw mynd i'r afael â'r gofynion cyllido o ran yr angen hwn i fenthyca. Gan ddibynnu ar y rhaglen gwariant cyfalaf, mae gwasanaeth y trysorlys yn trefnu sefyllfa ariannol y Cyngor er mwyn sicrhau bod digon o arian ar gael i gwrdd â'r cynlluniau cyfalaf a'r gofynion mewn perthynas â llif arian. Gellir cael yr arian hwn trwy fenthyca gan gyrff allanol (fel y Llywodraeth, trwy'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) neu'r marchnadoedd arian), neu trwy ddefnyddio adnoddau arian dros dro o fewn y Cyngor.

### 3.3 Gostwng y CFR

**3.3.1** Ni chaniateir i anghenion sylfaenol benthyca'r Cyngor (CFR) godi am byth. Mae yna reoliadau statudol yn eu lle i sicrhau bod asedau cyfalaf yn gyffredinol yn cael eu codi ar refeniw dros fywyd yr ased. Mae'n rhaid i'r Cyngor godi tâl refeniw blynyddol a elwir yn isafswm darpariaeth refeniw, MRP, er mwyn gostwng y CFR. I bob pwrpas, ad-daliad yw hwn o'r angen i fenthyca. Mae hyn yn wahanol i'r trefniadau rheoli trysorlys sy'n sicrhau bod arian ar gael i gwrdd ag ymrwymiadau cyfalaf. Yn ogystal, gellir benthyca dyled allanol neu ei thalu'n ôl ar unrhyw adeg, ond nid yw hyn yn newid y CFR.

**3.3.2** Gellir gostwng cyfanswm y CFR hefyd drwy:-

- ddefnyddio adnoddau cyllido cyfalaf ychwanegol (megis derbyniadau cyfalaf sydd heb eu defnyddio); neu
- godi mwy na'r tâl refeniw statudol (MRP) ym mhob blwyddyn trwy Ddarpariaeth Refeniw Wirfoddol (VRP).

**3.3.3** Cafodd Polisi MRP 2017/18 y Cyngor (fel sy'n ofynnol dan gyfarwyddyd LlC) ei gymeradwyo fel rhan o adroddiad Strategaeth Rheoli Trysorlys 2017/18 ar 28 Chwefror 2017.

**3.3.4** Dangosir isod CFR y Cyngor ar gyfer y flwyddyn ac mae'n cynrychioli dangosydd pwyllog allweddol. Mae hyn yn cynnwys unrhyw PFI a chynlluniau prydlesu ar y fantolen a fyddai'n cynyddu anghenion benthyca'r Cyngor, y CFR. Nid oedd cynlluniau o'r fath yn ystod y flwyddyn.

| CFR : Cronfa'r Cyngor | 2016/17 Gwirioneddol (£m) | 2017/18 Cyllideb (£m) | 2017/18 Gwirioneddol (£m) |
|---|---|---|---|
| Balans agoriadol | 84 | 92 | 92 |
| Ychwanegu gwariant cyfalaf ariannwyd drwy fenthyca (fel uchod) | 11 | 13 | 7 |
| Llai MRP/VRP* | (3) | (4) | (4) |
| Balans Cau | 92 | 101 | 95 |

| CFR : CRT | 2016/17 Gwirioneddol (£m) | 2017/18 Cyllideb (£m) | 2017/18 Gwirioneddol (£m) |
|---|---|---|---|
| Balans agoriadol | 43 | 42 | 42 |
| Ychwanegu gwariant cyfalaf heb ei gyllido (fel uchod) | 0 | 0 | 0 |
| Llai MRP/VRP* | (1) | (1) | (1) |
| Balans Cau | 42 | 41 | 41 |

**Yn cynnwys defnydd gwirfoddol o dderbyniadau cyfalaf*

**3.3.5** Mae'r gweithgaredd benthyca yn cael ei gyfyngu gan ddangosyddion pwyllog ar gyfer benthyca gros a'r CFR, a chan y terfyn awdurdodedig.

## 3.4 Benthyca Gros a'r CFR

Er mwyn sicrhau bod lefelau benthyca yn bwyllog dros y tymor canol a dim ond ar gyfer dibenion cyfalaf, dylai'r Cyngor sicrhau nad yw ei fenthyca allanol gros, ac eithrio yn y tymor byr, yn uwch na chyfanswm y gofyniad cyllido cyfalaf yn y flwyddyn flaenorol ynghyd â'r amcangyfrifon o unrhyw ofyniad cyllido cyfalaf ychwanegol ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol a'r ddwy flynedd ariannol nesaf. I bob pwrpas, mae hynny'n golygu nad yw'r Cyngor yn benthyca i gefnogi gwariant refeniw. Mae'r dangosydd hwn yn caniatáu peth hyblygrwydd i'r Cyngor fenthyca ymlaen llaw i'w anghenion cyfalaf yn 2017/18. Mae'r tabl isod yn nodi sefyllfa fenthyca gros y Cyngor yn erbyn y CFR. Mae'r Cyngor wedi cydymffurfio gyda'r dangosydd pwyllog hwn.

| | 31 Mawrth 2017 Gwirioneddol (£m) | 31 Mawrth 2018 Cyllideb (£m) | 31 Mawrth 2018 Gwirioneddol (£m) |
|---|---|---|---|
| Sefyllfa Benthyca Gros | 117.1 | 125.0 | 117.0 |
| CFR | 134.0 | 142.9 | 136.9 |

**3.4.1** Fel rhan o'r broses o gyllido gwariant cyfalaf ar gyfer 2017/18, defnyddiwyd benthyciadau mewnol i gyllido'r bwlch rhwng yr adnoddau a oedd ar gael (derbyniadau cyfalaf, grantiau cyfalaf, cyfraniadau cyfalaf a chyfraniadau refeniw) a'r gwariant cyfalaf. Yn wyneb cyfraddau llog ar y farchnad ar hyn o bryd a'r rheini a ragwelir, ynghyd â risgiau credyd gwrthbartïon, penderfynwyd parhau i fewnoli benthyciadau o leiaf yn y tymor byr. Mae hyn yn golygu bod y Cyngor, yn lle benthyca'n allanol ar gyfer holl ofyniad benthyca'r Cyngor, yn defnyddio ei arian wrth gefn ei hun i gyllido rhan o'i raglen gyfalaf.

**3.4.2** Bellach, mae'r strategaeth o fenthyca'n fewnol wedi cael ei gweithredu dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Mae'r benthyciad gros o £117.0m ar 31 Mawrth 2018 yn llai na'r CFR a ragwelwyd ar gyfer y ddwy flynedd ddilynol.

| | Gwirioneddol 2017/18 (£m) | Amcangyfrif 2018/19 (£m) | Amcangyfrif 2019/20 (£m) |
|---|---|---|---|
| Gofyniad Cyllido Cyfalaf | 136.9 | 148.9 | 165.3 |

Ffynhonnell: Strategaeth Rheoli Trysorlys 2017/18

**3.5** Y dangosyddion eraill yn ymwneud â dyled yw:-

**3.5.1** **Y terfyn awdurdodedig** - y terfyn awdurdodedig yw'r "terfyn benthyca fforddiadwy" sy'n angenrheidiol yn unol ag Adran 3 Deddf Llywodraeth Leol 2003. Unwaith y mae hwn wedi ei bennu, nid oes gan y Cyngor rym i fenthyca uwchlaw'r lefel hon. Mae'r tabl isod yn dangos bod y Cyngor wedi llwyddo i gadw o fewn y terfyn awdurdodedig o ran benthyciadau gros yn ystod 2017/18.

**3.5.2** **Y terfyn gweithredol** - y terfyn gweithredol yw'r sefyllfa fenthyca a ddisgwylir ar gyfer y Cyngor yn ystod y flwyddyn. Mae cyfnodau lle mae'r sefyllfa wirioneddol naill ai yn is neu'n uwch na'r terfyn yn dderbyniol ar yr amod nad yw'n mynd dros y terfyn awdurdodedig.

**3.5.3** **Costau ariannu gwirioneddol fel cyfran o'r ffrwd refeniw net** - mae'r dangosydd hwn yn nodi'r patrwm o ran cost gyfalaf (benthyca a chostau ymrwymiadau tymor hir arall net o incwm buddsoddi) yn erbyn y ffrwd refeniw net.

| | **2017/18** |
|---|---|
| Terfyn awdurdodedig | £169.0m |
| Sefyllfa o ran uchafswm benthyciadau gros | £117.0m |
| Terfyn Gweithredol | £164.0m |
| Costau ariannu fel cyfran o ffrwd refeniw net - Cronfa'r Cyngor | 6.25% |
| Costau ariannu fel cyfran o ffrwd refeniw net – CRT | 23.02% |

## 4. SEFYLLFA TRYSORLYS AR 31 MAWRTH 2018

